DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

Rhif 164 **MAI 1990**

Tîm Cwmderi

(Tudalen 7)

Llun – Amgueddfa Diwydiant a Môr

CYNNWYS

Colofn Shân	3	Tîm Cwmderi	7
Sêr	5	Y Calendar	17
Bwth Ruth	4	Croesair	19

YN RHAD AC AM DDIM

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

GŴYL HEN GALAN MAI

Gŵyl Genedlaethol
o grefftau traddodiadol,
chwaraeon ac adloniant

4 - 7 MAI 1990
gan gynnwys Gwyl Fai
10.00am - 7.00pm bob dydd

Atyniadau yn cynnwys

Codi'r Fedwen Fai
*
'Cadi Ha' - Cornel y Plant
*
Arddangosiadau Crefft
*
Adloniant Amrywiol ym
Mhafiliwn yr Wŷl
*
Arddangosfa 75 Mlwyddiant
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched
*
Stondinau ac Arddangosfeydd

Diwrnod i'r brenin a'r teulu yn
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
Un o Amgueddfeydd Awyr Agored pennaf Ewrop

Yn ystod Gŵyl Fai mynediad o gyffordd 33 M4 yn unig

ORIEL

ORIEL – arbenigwyr mewn llyfrau o Gymru, llyfrau i ysgrifenwyr, llyfrau celf a barddoniaeth yr ugeinfed ganrif. Nawr mewn safle newydd, nid nepell o Heol y Frenhines.



Yr ydym hefyd yn cadw llyfrau ar arlunio, pensaernïaeth, y cyfryngau, y sinema, cardiau, posteri a chasetiau. Prynwch dros y ffôn – derbynnir cerdyn credyd.

Oriel
Heol Tŷ'r Brodyr
Caerdydd CF1 4AA
☎ 0222-225855

COLOFN SHÂN

Wel, does gen i ddim chwyldroadol, anturus na diddorol i'w ddweud wrtho chi'r mis yma, na dim o natur wewyryddol (os oes y fath air). Y cyfan sydd gen i ydy disgrifiad o'r diwrnod yr es i ati i lunio'r pwt yma.

Codi'r bora 'ma a siarsio fy hun bod yn rhaid imi geisio cyflawni rhywbeth cyn nos. Dyma roi heibio unrhyw syniad o ymweld â rhywun na chymowta o unrhyw fath. Gwneud yr anghenrheidiol i ddechrau, fel golchi, a chan 'i bod hi'n fora gwanwynol braf eu rhoi i sychu ar yr hances boced o falconi sydd gen i oddiar y gegin. Ar ddiwrnod gwyntog rydwi wedi, cyn hyn, orfod rhuthro i lawr y grisiau i achub coban a rhai pethau mwy sylfaenol hyd yn oed na hynny rhag f'embaras i na'm cymdogion. Ond diwrnod llonydd tawel braf heddiw.

Yna sodro fy hun ar y soffa efo fy meiro i lunio eitem ar gyfer Merched yn Bennaf. Fe ddaeth reit rwydd, ac wele, dwy awr a hanner wedi diflannu i gyfeiliant Ray Gravell a Gari Williams yn y cefndir. Toriad bach wedyn, a meddwl bod f'ymdrechion yn haeddu egwyl fach i ffonio Mari a chael clywed Ifan yn poeri a gwneud synnau bach od, mewn ymdrech i sgwrsio â'i Nain. Ar ôl hynny, teimlo wel, mi fedrai fynd i'r afael â rhywbeth arall

rwan. Cyfeirio dau ddwsin o amlenni i aelodau Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Cymry Ariannin a chynnwys cofnodion a llythyr yn 'u gwadd i Bwyllgor yn Aberystwyth ymhen y mis. Pacio presant penblwydd i ffrind yn y Gogledd, hynny'n f'atgoffa bod penblwydd Hannah fy nithffonio i ddymuno'n dda iddi yn ei pharti.

Cychwyn am y Swyddfa Bost wedyn. Nid yw fawr o lathenni o'm fflat. Ond wyddoch chi – rhwng drws y fflat a'r Swyddfa Bost, mi ges i gyfarchiad neu sgwrs â chwech o Gymry Cymraeg. Melys pob un ohonynt a theimlad nad swbwrbia Caerdydd yw Llandaf, ond pentre, a bod modd byw bywyd Cymraeg yma. Merch y Swyddfa Bost yn glên iawn, ac yn fy helpu i lyfu'r hylltod stampiau. Tra'n gwneud hynny, yn tynnu fy sylw, gan fy mod i'n Gymraes Gymraeg, bod ganddi wlân unigryw ac arbennig o hardd wedi ei nyddu a'i gynhyrchu yn Llandysul. Label y bag yn Gymraeg a finna'n medru cadarnhau iddi mai "Gwlân gafr o safon uchel" oedd ystyr y geiriau ar y label. Ydwi'n gweu? Gorfod cyfaddef, nac ydwyf, arwahân i gyfnodau prin o awydd mympwyol. Dangosodd imi gwdyn o wlân porffor grugaidd, a bu bron imi gael "awydd mympwyol", nes imi sylwi bod y cwdyn yn £35! Afrad fyddai imi ei brynu, a cham â'r gwlân fyddai imi fynd i fyrraeth ag o. Biti hefyd!

Yn ôl i'r fflat-tri chopi o'r Faner ar y matgan ffrind sydd yn gwybod fy mod yn anfon copi o'r Cymro a'r Faner i'r Wladfa bob wsnos, ond yn hoffi cadw copi o'r Faner i mi fy hun. Dechrau ar hyn o lith cyn mynd ati wedyn i lunio sgwrs o ryw awr ar Bapurau Bro i ddosbarth y ddysgwyr cyn bo hir. Ddim syniad lle i ddechrau ar hwnnw – ond fe ddaw gobeithio fel y mae hwn fel pelen wlân yn dechrau datod a mynd i'w ffordd ei hun.

Yn y pnawn gorfod rhoi'r gorau iddi gan imi gael ymweliad gan Hanna a'i dwy Nain. Mam Hanna yn un o ffrindiau penna' Mari, a dyma gyfarfod am y tro cynta'. Egwyl ddifyr iawn. Ymweliad annisgwyl gan fy mrawd wedyn ac fel y byddwn ni bob amser, fe aeth y sgwrs i "Bellafoedd hen wlad Llŷn" ac yntau'n gofyn a glywais eitem ffŵl Ebrill ar y radio fore Sul dwytha. Naddo, medda figlywodd o bod sôn am gau capeli Pwllheli a Phen Llŷn gan gynnwys Penmount a'i droi yn fflatiau, a chodi honglad o le ar yr ynys yn yr harbwr i gartrefu holl weithgarwch crefyddol yr ardal efo pres mawr o'r Mericia, a mynd ag organ Penmount yno. A wyddoch chi mai honno oedd yr eitem yr oedd Endaf yn cyfeirio ati, finna wedi llyncu'r cyfan! Gyda'r nos, nos Sul roeddwn wedi gwylio'n ddagreuol Dechrau Canu Dechrau Canmol o'r hen Benmount, gwylio a gwrando'n atgofus a phob math o bethau yn mynnu llithro i'r wyneb o gist y cof, cofio'r gogoniant a fu wrth weld seti gweigion a cheisio dychmygu yr organ hardd yn cael i datgymalu a'i symud i adeilad yn yr Harbwr!

Wel sôn am het wirion ynte, ond dyna ni, pan gyll y call fe gyll ymhell. Dim ond megis dechrau'r sgwrs ar Bapurau Bro i'r dysgwyr wnes i a chwythu mhlwc tua'r pump 'ma. Bydd raid cael ail wynt heno. Dipyn o rwals mi wn ydy'r golofn 'ma'r mis yma, ond mi oddewais i'r tro dwytha y byddwn i yn fwy joli y tro yma. Mi 'dwi wedi trio ond do? Ydwi 'dwch?

Y Ffor' Gynta' i Wella

Croeso adre i Gwilym Williams, Victoria Park, ar ôl llaw-driniaeth yn Ysbyty Pen-y-Bont. Dymuna adrodd peth o'i hanes er lles cleifion eraill.

Bu'n diodde' o Hernia poenus ers mis Gorffennaf, 1989 gan ddisgwyl yn amyneddgar am law-driniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd. Deallodd, rai wythnosau'n ôl, y byddai'n rhaid iddo aros am 14 mis arall cyn cael ei alw i'r ysbyty ond ar ddydd Gŵyl Dewi clywodd, drwy gyfaill, am y Ganolfan Driniaeth Law-feddygol yn Ysbyty Cyffredinol Pen-y-Bont. (Awdurdod Iechyd Morgannwg Ganol). Gwaith y ganolfan yw trin cleifion sy'n diodde o Hernia neu 'varicose veins' ac sy wedi bod ar restr-aros y Gwasanaeth Iechyd unrhyw fan yng Nghymru ers pedwar mis neu fwy. Ymgynghorodd Gwilym â'i feddyg-teulu ar unwaith ac ar Fawrth 23ain derbyniodd lythyr o Ben-y-Bont yn ei wadd i ymweld ag Arbenigwr y Ganolfan ar Ebrill 4ydd. Ar sail yr ymchwiliad hwnnw gwnaed trefniant iddo fynd i'r ysbyty ddydd Mercher, Ebrill 11eg. Cafodd ei driniaeth fore lau a dychwelyd adre ar y Gwener (rhaid i bob claf fod mewn cyflwr iechyd i dderbyn yr arhosiad – dros – nos a gynigir).

Mae'n canmol y Ganolfan yn fawr iawn; roedd y nyrsio'n ardderchog (a Chymraeg!), yr Arbenigwr yn cymryd diddordeb personol ynddo a'r awyrgwylch yn gynnes, braf. A phopeth drosodd o fewn tair wythnos i'w ymholiad cynta!!

Rhaid i feddyg-teulu neu Arbenigwr gyflwyno claf i'r Ganolfan ond mae manylion llawn am y cyfleusterau a'r driniaeth bosibl i'w cael yn y pamffled 'CUTTING THE QUEUE' a gyhoeddir gan Awdurdod Iechyd Morgannwg Ganol ar gael o –

Ysbyty Cyffredinol Pen-y-Bont ar Ogwr
Quarella Road
Pen-y-Bont ar Ogwr CF31 1JP
Rhif ffôn: 0656 662166

Diolch yn fawr i Gwilym am rannu ei brofiad a'i wybodaeth a dymuniadau gorau iddo fo ac i Dilys.

"WY'N GWRANDO"

Mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant, meddai'r hen air. Felly mae hi ar Radio Cymru. Yn ystod yr wythnosau diwethaf cefais fy hoelio gan gyfres unigryw. Nid gormodiaith yw dweud mai dyma un o orchestion ein radio cyfoes.

Mae Radio Caryline yn hynod petae ond am ei theitl. Mae'n chwarae ar enw'r orsaf radio enwog honno a ddarlledai'n anghyfreithlon o long ar Fôr y Gogledd ac a dorrodd dir newydd ar sawl cyfri.

Beth sy'n torri tir newydd yn y gyfres Gymraeg yw mai un ferch, Caryl Parry Jones, sy'n cyflwyno'r cyfan. Mae ganddi oriel o leisiau sy'n eithriadol. Mae ei dawn dynwared mor llwythog fel nad oes angen iddi ddefnyddio'i phriod lais o gwbl. Dim ond pan fydd hi'n canu ei chân yn ystod y rhaglen y clywn ni Caryl.

Ond nid digon yw dynwared. Hanfod y rhaglen o ran ei chynnwys yw dychan adloniadol. Mae dychanu'n fwy na thynnu coes. Mae'n procio, mae'n mynegi barn mewn modd anuniongyrchol, mae'n cynnig sylwadau. Nid gordd sydd ar waith ond pluen bigog sy'n procio ac yn goglais yr un pryd.

Mae'r sgriptiau'n gynnil ac yn trin a thrafod llawer o'r hyn sy'n gyfarwydd i ni fel gwrandawyr. Does fawr o neb yn y Gymru gyfoes yn cael dianc rhag rhwyd dychanol Hywel Gwynfryn sydd wrthi'n cynhyrchu ac yn cyfrannu gymaint o'r deunydd.

Mae cyflwyniad cyffredinol y rhaglenni'n dangos sglein arbennig ac yn ymestyn posibiliadau radio sain drwy dechnegau dyfeisgar a chwim. Mae'n byrlymu o'r dechrau i'r diwedd ac mae rhaid gwrando'n astud i gael pob ergyd. Diolch byth ei bod hi'n cael ei hailadrodd. Mae'n well fyth yr eildro.

Cyfres fwy pwyllog ond eto'n gynhyrfus oedd y rhaglenni am y cyfansoddwr Richard Wagner. Yn Y BYD I GYD cafwyd ymdriniaeth ddiddorol, ddifyr a deallus dan arweiniad Lyn Davies. Wrth law roedd eraill i'w gynorthwyo i roi trefn ar waith a bywyd y creadur anystywallt o athrylith – John Davies a'r persbectif hanesyddol, Wyn Davies yr arweinydd a Geraint Lewis, sylwebydd craff a threiddgar. O ddilyn y gyfres hon i'w phen roedd gan y gwrandawr lwybr dipyn cliriach i'w arwain at werthfawrogiad mwy ystyrlon o Richard Wagner a'i fyd, a diolch i Gwyn L Williams, Bangor am yr arlwy.

Daeth arwyddion newid yn amserlen a chynnwys Radio Cymru wedi tri mis cynta'r flwyddyn. Lleddfwyd ychydig ar bwysau plwm HEDDIW drwy osod ar ei hôl gyfresi llai trwm. Mae cymaint o'n rhaglenni bellach wedi'u clymu wrth enw'r cyflwynydd. O weld yr enwau fe geir syniad go lew o natur a chynnwys y rhaglen – dyna i chi fore mercher lle mae DIM OND RAYMOND, GARI, Y BACHGEN GLAN yn dilyn ei gilydd.

Mae cyfresi eraill sy'n dwyn teitlau mwy deniadol ac sy'n codi chwilfrydedd – BLODEUGERDD yng nghwmni cynnes Carys Whelan, LLEISIAU AUR gydag Alun 'bytholwyrdd' Williams a TRI AR Y TRO dan law Lyn Davies. Diolch byth bod MWY NA GEIRIAU wedi dychwelyd gyda John Ogwen wrth y llyw tra bo'r gyfres TALWRN Y BEIRDD yn y dal yn un o ryfeddodau Radio Cymru. Diolch hefyd am ambell i gyfres sy'n gofyn sylw llwyr i'w blasu'n llawn. Dyna yw CILFACHAU'R COF ac roedd cael eistedd am hanner awr a gwrando ar Islwyn Ffowc Elis yn myfyrio'n uchel yn fraint. Mae'n dda cael ambell i gyfres sy'n hawlio'r sylw cyfan. Fel arfer, mae'n fuddsoddiad ffrwythlon iawn.

Cymysgedd ar gyfer tipyn o bawb yw Radio Cymru, wrth reswm, a champ y golygydd yw sicrhau bod rhywbeth neu'i gilydd at ddant pawb. Mae cydbwysedd yn hanfodol.

WL

BWTH RUTH

Wel, helo pa hwyl sydd – anodd iawn setlo i sgwennu'r mis yma gan fod y 'deadline' yn dod ynghanol gwyliau'r Pasg – sori Madam Golygydd. "Ar lannau'r Fenai dlawd" yr ydwi'n treulio'r Ŵyl – gwarchod 'Dinas' i'r hen deulu. O'r boncan goediog y tu ucha i'r tŷ y codwyd pont gan y Rhufeiniaid o Foel y Don (ochr Sir Fôn), i'r tir mawr, ag mae'n debyg mai'r olion o'r cyfnod sy'n cyfrif am enw'r lle 'Dinas'.

Dyma beth ydi mwynhau diogi – gwylio dau berson wedi eu gwisgo mewn dillad rwber ar bnawn Sadwrn gwyntog yn llywio darn o blastig dan eu traed a hwyl sengl yn eu dwylo yn ôl o blaen o Foel y Don i'r Felinheli efo'r gwynt i'w cefnau ar y ffordd yma ond yn eu herbyn ar y ffordd yn ôl. Mi groesan nhw'r afon yn rhwydd mewn – dowch i mi amseru – 15, 20, 25, ½ munud 40, eiliad na 50 eiliad union o lan i lan. Mae'r cychod crand o'r cei wedi mynd allan tuag at Gaernarfon a'r Bar ers tua 10 bore 'ma – a hefo gwynt fel sydd heddiw, mwy na thebyg eu bod nhw'n 'mochel yng nghysgod y bae cyn croesi'r bar yng Nghaernarfon ag yna allan am Sianel San Siôr.

Tydi'n iawn arnai yn sôn am gampau'r bobol yma sy'n hwylio, yn tynnu rhaffau a chodi angor a minnau'n mwynhau yn fan hyn ar dir sych.

Mae'n bryd i mi wneud rhywbeth egniol – reit mi a'i lawr i ymylon yr afon a llwytho bagiau Tesco hefo graean a gwymon a'u rhoi nhw'n ddel yng nghist y car – dyna lwyth arall o'r Fenai wedi dod i Gaerdydd – ag os na fydd gen i flodau a phlanhigion cystal â'r un yn Llandaf – fydd o ddim oherwydd diffyg menter nag egni yn na fydd?

Hwyl

DYDDIAD COPI RHIFYN MEHEFIN 11 – 05 – 90

CYMDEIMLAD

Clywson gyda thristwch mawr am farwolaeth sydyn Mrs Eleanor Miles Richards yn ei chartre yng Nghaerffili ddydd Sadwrn Mawrth 31. Bu Mrs Richards yn gefn i'r Cymraeg ei hardal mawr fydd y golled ar ei hôl. Cydymdeimlwn yn ddwys a'i merch, Eleri Rogers, a'i theulu Moc, Owain ac Angharad, ac hefyd gyda Nest a'i theulu y Birmingham.

SÊR Y DINESYDD

Eiry Palfrey

MAI 1990

ARIES

Byddwch yn dechrau'r mis gyda digonedd o ynni a brwdfrydedd, ond cadwch eich tymer dan reolaeth. Os am lwyddo yn eich gyrfa dilynwch eich greddf, wnaiff e mo'ch gadael i lawr ar hyn o bryd. Mae hwn yn gyfnod greadigol iawn, cymrwch fantais o'r holl ynni sydd gennych i wneud rhywbeth yn ei gylch.

TAURUS

Mae hwn yn gyfnod da i drefnu taith egsotig i wlad dramor. Fe allech gwrdd â rhywun newydd a chyffrous y mis hwn, a synnu llawer un. Os cewch eich temptio i wneud newidiadau yn y gwaith tua diwedd y mis – peidiwch. Mi fydd yn saffach o lawer i chi adael pethau fel y maen nhw am y tro.

GEMINI

Mae hwn yn addo bod yn gyfnod rhamantus iawn, a fe allech gael cynnig diddorol o fwy nag yn cyfeiriad. Ac os medrwch gael hwyl heb frifo neb – yna gwnewch a mwynhewch! Ond os ydych am siomi rhywun annwyl mae'n debygol mai chi fydd yn diodde fwyaf yn y pen draw. Fe allai swm o arian hirddisgwyliedig gyrraedd cyn bo hir.

CANCER

Piediwch â gorwneud pethau ar hyn o bryd, mae eich lefel ynni braidd yn isel. Gadewch i eraill, mwy egniol ruthro o gwmpas. Ry'ch chi'n haeddu hoe fach ar ôl rhuthr y Pasg. Peidiwch ag arwyddo dim sy'n golygu gwario arian – tan ddiwedd y mis.

LEO

Mi ddylech wneud yn dda yn y gwaith nawr a chael canmoliaeth – dyrchafiad hyd yn oed. Bydd un o'ch cydweithwyr yn eich synnu, ac yn gwneud bywyd yn ddiddorol iawn am gyfnod. Mae gennych lawer iawn o allu creadigol ar hyn o bryd, defnyddiwch e yn y gwaith – fyddwch chi ddim yn edifar.

VIRGO

Mi ddylech gael mwy o hwyl allan o fywyd ar ôl y 10fed, ac o hynny ymlaen bydd eich dychymyg byw a'ch syniadau creadigol yn synnu'ch cyd-weithiwyr – gwnewch yn siwr mai chi fydd yn elwa o hyn ac nid rhywun arall diegwyddor. Weithiau rydych chi'n rhy agored gyda'ch syniadau. Mi fyddwch yn gwneud rhywbeth newydd a chyffrous ar y 12fed.

LIBRA

Mi fyddwch yn treulio mwy o amser yn y cartref ar ôl y 10fed ac yn debygol o brynnu rhywbeth anarferol i'w harddu. Mae gennych allu creadigol mawr ar hyn o bryd yn enwedig i ysgrifennu neu i gyfansoddi cerddoriaeth. Os nad ydych erioed wedi gwneud hynny, rhowch gynnig arni fe allech gael eich synnu gan eich talent eich hun!

SCORPIO

Os bu problem yn eich poeni ers tro bellach wel dyma'r amser i'w datrys a fe ddaw'r ateb yn rhwydd a syml o gyfeiriad cwbl annisgwyl. Ceisiwch dreulio ychydig o amser gyda'ch cymar, mae e wedi bod yn teimlo'n unig yn ddiweddar a mi fydd yn gwerthfawrogi tipyn o sylw a maldod oddi wrthych.

SAGITTARIUS

Rydych ar drothwy cyfle i wneud arian mewn ffordd anarferol ac annisgwyl gyda'ch talent a'ch gallu creadigol, cymerwch fantais llwyr ohono, ond peidiwch â gwario'n wirion, gan fod rhai dyddiau llwm o'ch blaen eto. Mi fydd rhywun yn y gwaith yn gwerthfawrogi'ch dyfalbarhad a'ch gwaith caled ac yn awyddus i'ch canmol.

CAPRICORN

Peidiwch â gwneud unrhyw benderfyniad ariannol a allai effeithio eich dyfodol tan ddiwedd y mis, dyw pethau ddim yn hollol fel y maen nhw'n ymddangos ar yr olwg gyntaf. os y cewch chi wahoddiad i gymdeithasu tua chanol y mis, ewch a mwaynhewch hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo fel gwneud hynny.

AQUARIUS

Peidiwch â gwneud addewid byrbwyll na ellwch ei gadw ac efallai siomi rhywun sy'n hŷn na chi. Mae hwn yn gyfnod secig iawn i chi felly cymerwch sylw o'ch breuddwydion. Cewch syniad yn sydyn sut i wneud mwy o arian. Peidiwch â gwaneud penderfyniadau sy'n effeithio'ch teulu eto gan nad yw'r ffeithiau i gyd gennych chi ar hyn o bryd.

PISCES

Mae hi'n bwysig eich bod yn rhoi sylw i fanylion nawr er mwyn osgoi camddealltwriaeth. Efallai byddwch yn cyfarfod â ffrind newydd siddorol tua'r 15fed, un fydd yn cael llawer o ddylanwad arnoch yn y misoedd sydd i ddod. Os bu problem yn eich poeni'n ddiweddar ewch dros yr hen dir eto a fe ddaw'r ateb.

DYDDIADUR Y GWEINIDOG

GARTREF AC ODDI CARTREF (Pigion o Ebrill '90)

1 SUL . . .

Dim llawer o amser i geisio chwarae Ffŵl Ebrill ar Eirian oherwydd mae'r gwasanaeth Saesneg yn Tabernacl, Efail Isaf am 9.30 ac yna'r Gymraeg am 10.30 – dau gymundeb. Dim trysorydd yn yr oedfa Gymraeg a dim siec i'r pregethwr ychwaith! Noddfa, Ynysybŵl am 3 – gwasanaeth llawer tawelach na'r arfer gan fod y plant o heddiw ymlaen nôl i'r bore. Yna gwasanaeth ola'r Sul a chymundeb arall am 6 yng Nghastellau, ger Beddau. Mae'n amlwg eu bod nhw yno am y nos a dim brys o gwbl i fynd adre ar y diwedd.

Y tro cyntaf i mi wasanaethu 4 o weithiau ar y Sul. Mae rhai o'n plith yn gwneud hyn yn gyson! Cofio am fy niweddar Daid (Castell Newydd Emlyn) wedi pasio 80 oed ers sawl blwyddyn yn pregethu 5 o weithiau – am 10, 1.30, 3.00, 5.00 a 6.00!

5 IAU . . .

Dathlu dwy flynedd o fywyd priodasol. Ond dim dathlu yn nhŷ fy rhieni. Galwad ffôn cynnar oddi wrth Mam yn dweud fod Dad wedi cael trawiad arall o 'labyrinthitis' yn ystod y nos. Pero'r ci, chwarae teg iddo, wedi cyfarth a dwyn sylw fy Mam i'r digwyddiad.

Prynu blodau i Eirian cyn teithio i Abertawe erbyn 11 – Pwyllgor Efengylu Adran Gymraeg yr Undeb. Mynd trwy'r agenda cyn cinio. Tybed ai'n fwriadol nad oedd yr ysgrifennydd, Parch John Treharne, Penygroes, wedi cynnwys UFA ar y diwedd!

Yn hwyrach yn y dydd, allan am bryd o fwyd yn Gril Toby, yn Y Deri, Rhiwbeina. Na, doedd dim eisiau bwcio – mae'n ddigon tawel ar nos Iau.

LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Elen ap Robert ar ei llwyddiant yn ddiweddar yn ennill llawryf mewn cystadleuaeth i gantorion ifanc drefnwyd gan Gôr Froncysttlte, Wrecsam. Hi yw Cantores y Flwyddyn, hyn yn dilyn llwyddiant fel ymddangos ar Sianel 4 Lloegr yn Opera Benjamin Britten y Nadolig. Cyn bo hir bydd yn teithio Ewrop mewn cynhyrchiad o'r "Ffliwt Hudol" gan Mozart. Ymfalchiwn yn ei llwyddiant. Pob hwyl Elen.

CWM RHYMNI

Y Farwnes White o Rymni yn cyflwyno coron y brifwyl i gadeirydd pwyllgor gwaith Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni, Mr Hubert Morgan. Yn y llun o'r chwith i'r dde mae Mrs Teg Blackwell, Maeres Cyngor Ardal Cwm Rhymni; Y Farwnes; Y Cynghorydd Stan Blackwell, Maer; cadeirydd yr is-bwyllgor Ilên, Dafydd Islwyn; a Mr Morgan.

DENU CYSTADLEUWYR

Mae 45 o geisiadau wedi dod i law ar gyfer cystadleuaeth y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni – sef y nifer fwyaf ers rhai blynyddoedd.

Derbyniwyd pump ar hugain o gyfansoddiadau yn Llanrwst y llynedd, ac ar gyfartaledd rhyw ddeg ar hugain sy'n cystadlu am y goron bob blwyddyn. Y testun eleni yw "Gwreichion".

Mae cyfanswm o 11 wedi cystadlu am y Gadair ar y testun "Gwythiennau".

Mae 77 wedi cystadlu ar yr englyn ar y testun "Brawd neu chwaer" – ac fe dderbyniwyd 31 o anglynion ysgafn ar y testun "Barddas".

Yng nghystadleuaeth ysgrifennu nofel wyddoniaeth i rai yn eu harddegau daeth 3 amlinelliad i law. Bwriedir rhoi comisiwn i gwblhau'r gwair – os bydd teilyngdod.

Fe anfonwyd 55 o emyn donau at swyddfa'r eisteddfod, ac yn y brif gystadleuaeth gyfansoddi mae chwech sonata i biano wedi eu derbyn.

CYSTADLEUAETH NEWYDD SBON

Bydd cyfle ynigryw i'r rhai sy'n ymddiddori mewn llysieueg i arddangos eu gwaith mewn arddangosfa arbennig yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yn sgil cystad-

Gofynnir i gystadleuwyr baratoi a chyflwyno Herbariwm Cymreig – sef casgliad o blanhigion gwyllt – sy'n dangos yn glir eu nodweddion llysieuol arbennig.

Dim ond planhigion gwyllt cyffredin a ganiateir yn y gystadleuaeth, a bydd unrhyw gasgliad sy'n cynnwys planhigion prin yn cael ei wahardd ar unwaith.

leuaeth newydd sbon a gynhelir yn Eisteddfod Cwm Rhymni eleni.

Wedi'r Eisteddfod bydd gwaith y buddugwyr yn cael ei arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, ac os yw'r safon yn ddigon uchel bydd y casgliadau yn cael eu cynnwys yn herbariwm parhaol yr Amgueddfa.

Nod y gystadleuaeth yw annog astudiaeth wyddonol o blanhigion ymhlith naturiaethwyr amatur a proffesiynol. Gobeithir hefyd y bydd y gystadleuaeth yn fodd i sicrhau nad yw planhigion prin cefn gwlad yn cael eu rheibio drwy ddiofal neu esgeulustod ar ran naturiaethwyr.

Eleni yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni daeth pump nofel hir i law yn y gystadleuaeth am Fedal Goffa Daniel Owen a gwobr o fil o bunnau. Mae un ar hugain yn cystadlu am y Fedal Ryddiath a £4,000, a roddir eleni am gyfrol o straeon byrion. Ac mae saith wedi cynnig am Dlws y Ddrama, (a roddir eleni er cof am Eynon Evans) a gwobr o £400. Fe wobrwyir drama a gymer rhwng awr a hanner a dwy awr i'w pherfformio – os bydd teilyngdod.

Y llynnedd dim ond dau fu'n ymgeisio am Fedal Goffa Daniel Owen. Mae nifer yr ymgeiswyr am y Fedal Ryddiaith eleni dipyn yn uwch nag arfer – un ar ddeg fu'n cystadlu yn Llanrwst a deuddeg yng Nghasnewydd. Mae nifer y cystadleuwyr am Dlws y Ddrama eleni rhywbeth yn debyg i arfer.

Cynllunydd a gwneuthurwr cadair Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni, Ceri Vale o Gaerffili, a gyflwynodd hi i is-gadeiryddion y Pwyllgor Gwaith Mrs Moyra Davies a Mr Keri Edwards.

Dywedodd trefnydd prifwyl Cwm Rhymni, Penri E. Roberts ei fod yn falch fod yr ymateb hyd yn hyn yn dda iawn.

CINIO ARALL

Wedi llwyddiant neilltuol brodorion Cwm Rhymni yn eu hymdrech i gefnogi Eisteddfod Cwm Rhymni mae'r haint wedi lledu. Gyda llaw, fel canlyniad i'r cinio – dydd Sul a drefnwyd yn Neuadd Goffa Llandaf fe wnaed elw y dros £900 sydd dipyn mwy na'r swm a gambrintiwyd yn y rhifyn diwethaf.

Gobaith Cangen Caerdydd o Gymdeithas Cynfyfyrwyr Aberystwyth yw gwella ar yr elw a wnaed drwy drefnu cinio arall. Bydd y lleoliad, Neuadd Goffa Llandaf, y pris sef £10 y pen, yr un fath. Beth sy'n wahanol yw'r dyddiad sef Sul y 10fed o Fehefin, y trefnwyr a'r fwydlen.

Fe gafwyd tipyn o gefnogaeth eisoes ac mae'r 100 o docynnau wedi'u gosod yn nwylo pedair o gynfyfyrwyr sy'n byw yn Llandaf. Mynnwch eich tocyn am ginio blasus ymhlith cwmni difyr heb i chi baratoi'r un dim nac ychwaith olchi'r un llestr wedi'r wledd. Cysylltwch â Mari Price ar 568332, Nia Hall Williams ar 562472, Maurine Hurley ar 563339 a Dilys Lloyd ar 562154.

Brysiwch i sicrhau lle er mwyn cefnogi'r cyfeillion yng Nghwm Rhymni.

ANNWYL DINESYDD

Annwyl Dinesydd,

Ar ran Cwmni Drama'r Gadwyn, Radur, pleser gennyf amgau siec am £25.00 ar gyfer cronfa'r **Dinesydd**, gan ddymuno pob llwyddiant i'r papur yn y dyfodol.

Cofion gorau

Philip Wyn Jones
Ysgrifennydd

Annwyl Dinesydd,

Buom yn meddwl ers tro byd y dylem anfon cyfraniad bach i'r Dinesydd gan ein bod y gwerthfawrogi gymaint y gwaith da yr ydych chi a'r papur yn ei wneud yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Mae hefyd yn ffordd o ddweud diolch am y deyrnged hyfryd a roesoch i Mam yn y papur beth amser yn ôl. Roedd yn gysur mawr.

Gyda'r dymuniadau gorau ar ran Eiryth a minnau.

Urien Wiliam

TÎM CWMDERI AR Y BLÂN

Cefen: JOHN WALDRON (Rheolwr Cynhyrchu), GARETH LEWIS (Meic Pearce), IFAN HUW DAFYDD (Dic Deryn), HUW CEREDIG (Reg Harris), IEUAN RHYS (Sgt Glyn James), DEWI TSIPS (Manijar/Sgriptiau).

Ffrynt: GERAINT MORGAN (Barry John), JOHN BIGGINS (Billy Undsworth), GWYN ELFYN (Denzil Rees/Capt), HYWEL EMRYS (Derek Jones), PHYL HARRIES (Ken Coslett). Yn absennol o'r llun Glan Davies, Iestyn Jones ac Eryl Huw Phillips. Llun gan John Waldron.

Er y bydd y gyfres deledu POBOL Y CWM yn dod i ben am gyfnod dros yr haf ar Fai'r 18fed, mi fydd yn dal yn bosib i weld cymeriadau'r gyfres ar hyd a lled y wlad yn chwarae pêldroed.

Erbyn hyn mae CP Cwmderi mor enwog â Man Utd, Lerpwl, Cardiff Siti ac Acrington Stanley. Sawl tîm all ymfalchio'n y ffaith nad ydynt wedi colli un gêm eleni. Mi fu'r tîm yn chwarae ddwy waith yng Nghaerdydd. Ym mis Chwefror fe gurodd CP Cwmderi tîm DINAS 5 gôl i 2. Ac yna mis dwetha yn erbyn rhieni COED Y GOF. Y sgôr bryd hynny oedd Cwmderi 6 – Coed Y Gôf 2.

Gyda chwaraewyr penigamp fel Ken Coslett a'r Cynghorydd Ieuan Griffiths yn y blaen, Sgt Glyn James a Derek Jones yn y bac mae Denzil Rees, y capten, yn ffyddiog y bydd sgwad yr haf yn sgwad heb ei ail. Yn ogystal a'r chwaraewyr yma mae Dewi Tsips, y manijar, wedi dewis Barry John Probert, Meic Pearce, Dic Deryn a Reg Harris i chwarae ambell gêm. Gyda chyfraniad y rhain mi fydd y garfan yn un gryf. Mae'r tîm yn falch fod Dr Prosser wedi cytuno chwarae yn y gôl, a dim ond achos iddo adael i Sandra ac Eileen fyw yn ei dŷ mae'r manijar wedi gadael i Billy Undsworth chwarae ambell i gêm.

Yn teithio gyda'r tîm hefyd y bydd Clem Watkins, un o gyn – chwaraewyr y clwb, sydd bellach yn aelod blaenllaw o'r pwyllgor.

I fod yn ddifrifol, bwriad y tîm yw codi arian i elusennau – dyna ydi prif amcan Clwb Pêldroed Cwmderi. Ac am y tro cyntaf eleni mi fydd y tîm yn teithio i'r gogledd. Felly, chi ddinasyddion, os ydych yn mynd adre dros yr haf efallai y bydd CP Cwmderi'n chwarae yn eich pentre chi.

Dyma'r Dyddiadau:

MAI
3ydd – The Owen Money All-Stars, Heol Sardis, Pontypridd
26ain – Llandysul

MEHEFIN
8fed – Maes Yr Yrfa
21ain – Caernarfon
22ain – Dinbych

GORFFENNAF
6ed – Treffynnon
7fed – Abergele
8fed – Yr Wyddgrug
16eg – Penrhiwllan
20fed – Llanystumdwy
21ain – Llannerchymedd

AWST
15fed – Trap ger Llandeilo

Heb anghofio'r gêm fawr:

CP CWMDERI
v
BRYNCOCH UTD
(C'mon Midffild)

ar gae Nantlle Vale 28ain o Fai.

Dewch i'r gemau i gwrdd â chymeriadau Cwmderi, ond yn bwysicach dewch i gefnogi'r achosion da.

Ac fel mae'r gân yn dweud . . .

"Mae cynnwrf yn ein chware
Paratowch yr holl ddathliade – Mae tîm Cwmderi ar y blân!!"

Glyn James

DAU DDIODDEFAINT

Fe ellir dweud gyda chryn argyhoeddiad bod Caerdydd yn un o ddinasoedd mwyaf cerddorol Ewrop. Priodolir hyn gam lawer i fodolaeth y Cwmni Opera a'r holl elfrennau sydd ynghlwm a sefydliad o'r fath. Caerdydd yw cartref Cerddorfa Symffoni Gymreig y BBC ac, wrth gwrs, mae Neuadd Dewi Sant sy'n llwyfan i gymaint o weithgarwch cerddorol.

Ond mae haen arall o weithgarwch cerddorol sy'n codi o drigolion y ddinas. Gweithgarwch oriau hamdden sy'n cynnal y corau sy'n bodoli o fewn y ddinas ac yr y cyffiniau. O blith y rhain gellir nodi tri o'r goreuon – Cantorion Ardwyn, Côr Bach a Chôr Poliffonig Caerdydd. Wrth ddynesu at y Pasg cawsom gyfle i brofi gwaith dau o'r tri mewn campweithiau gan yr un cyfansoddwr, J. S. Bach, sef Y Dioddefaint yn ôl Sant Mathew a'r llall yn ôl Sant Ioan.

Yn Eglwys Gadeiriol Llandaf y cafwyd perfformiad Côr Bach Caerdydd o'r Sant Mathew. Dyma gampwaith eglwysig a glywyd gyntaf yn Leipzig. Mae'n waith hir sy'n adrodd stori dyddiau olaf Crist gan orffen yn y bedd tywyll. Mae'r gwaith cerddorol yn adlewyrchu tyndra, tensiwn, dwyster, myfyrdod a hynny drwy ddweud yr hanes.

Mae pwysau'r traddodi cerddorol yn nwylo'r Efengylydd. Mewn ffordd o siarad mae'r gwaith yn sefyll neu'n syrthio ym mherfformiad y traethydd. Roedd Côr Bach wedi dewis yn hynod o ddoeth wrth gael David Fieldsend i blethu'r stori ger ein bron.

Roedd ei berfformiad yn em a fflachiai pelydrau o oleuni cyson o'i enau i'n tynnu i mewn i ganol y ddrama. Roedd ei ddatganiad celfydd yn gosod nod arbennig o uchel i bawb a gymerai ran. Wrth lwc roedd ganddo gwmni da yn Stephen Gadd a ganai Crist, Gail Pearson a Vanessa Williamson.

Mae Côr Bach dan arweiniad grymus a chynnes Clifford Bunford yn hen gyfarwydd â gwaith y cyfansoddwr yr enwir y côr ar ei ôl. Mae gan y corff leisiau sain llawn ac aeddfed.

Yn y dyddiau hyn mae arddull canu Bach a'i gyfoeswyr wedi trawsnewid. Cyflymwyd amseriad, lleihawyd maent y côr a'r gerddorfa ac fe geisiwyd darganfod dull o berfformio a ymlai ar arferion cyfnod y cyfansoddi. Erbyn heddiw mae sawl dehongliad ar gael ac mae mwy nag un ffordd o gael Wil, neu Bach, i'w wely.

Ar y cyfan dewis canolffordd oedd gan Gôr Bach. Ond roedd gwres y lleisiau, teimladrwydd y canu ac, yn arbennig yn y coralau, yn gefn teilwng iawn i berfformiad disglair yr Efengylydd. Roedd cael perfformiad mewn eglwys yn ychwanegu'n fawr iawn at y datganiad.

Neuadd Dewi Sant oedd lleoliad y Côr Poliffonig dan gyfarwyddyd Richard Elfyn Jones. Roedd ei ddarlleniad o'r Sant Ioan, gwaith dipyn llai na'r Sant Sant Mathew, yn ddyledus iawn i'r arddull newydd.

Gogoniant y perfformiad hwn oedd canu disgybledig y côr. Dengys Richard Elfyn beth sy'n bosib gan gôr cymharol fychan ond sy'n anelu at y safonau uchaf o ran sain a mynegiant. Roedd y gerddorfa fechan yn diflannu o dro i dro dan sain y cantorion ac mae'n biti nad oes modd i'r Poliffonig gael cyfeiliant gan offerynwyr sy'n chwarae offerynnau cyfnod.

Doedd yr unawdwyr ddim o safon y côr er eu cystal ond rhaid cydnabod gwaith Lynton Atkinson fel Efengylydd. Mae cynildeb canu'r Poliffonig yn rhywbeth sy'n haeddu edmygedd a pharch ac mi fyddwn i'n fyddwn i'n dal mai'r lle priodol i berfformio gwaith o'r fath yw eglwys. Mae cymaint o wethiau Bach yn eistedd yn fwy cysurus mewn awyrgylch debyg i'r un y cyfansoddwyd gweithiau lefel hyn ar eu cyfer.

Problem bleserus Côr Poliffonig Caerdydd yw sicrhau unawdwyr ac offerynwyr o safon cystal â safon y côr ei hun, côr sy'n cyfoethogi gymaint ar ein profiad cerddorol.

Mae'r ddau gôr yn haeddu ac yn hawlio cefnogaeth fwy niferus gan y llu caredigion cerdd sy'n britho'r a'r cylch.

CWRS CERDDED Y MYNYDDOEDD I DDYSGWYR

Unwaith eto, cynhelir y Cwrs uchod ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd dros y penwythnos 25-28 o Fai. Arweinir y Cwrs fel arfer gan Merfyn Williams a Gwilym Roberts ac mae croeso i unrhyw ddysgwr sy'n awyddus i groesi'r bont geisio am le ar y Cwrs. £64.50 ydy'r tâl os bwriedir aros yn y Plas ac £8 y dydd i'r di-breswyl a phrydau bwyd yn ychwanegol. Am ragor o fanylion cysyllter â'r Plas rhif ffôn 076685 324/334. Bwriedir cerdded i ben yr Aran, i Gwm Pennant a Chwm Cynfal yn ystod y penwythnos.

CYDYMDEIMLAD

Bu tad Eiryl Walters, Rhiwbeina Hill, Rhiwbeina farw yn Rhydaman yn ystod y Pasg. Cydymdeimlwn a Mrs Nellie James, Eiryl a'r teulu oll yn eu colled fawr.

LLONGYFARCH

Y mae Eirion ac Avril Lewis yn Daid a Nain – neu'n fwy siŵr yn Dadcu a Mamgu. Llongyfarchiadau ar ddyfodiad Steffan Gwyn, mab Cyntafanedig i Rhian a Rhys Griffiths. Modryb Meinir wedi gwirion hefyd, fel y teulu yn y gogledd. Llawenhawn efo chi.

CYDYMDEIMLAD

Brawychwyd Gymru gyfan gan y newyddion trychinebus am farwolaeth trist Mair Kitchener Davies yn ei chartref dros y Pasg. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Manon Rhys, yr wyrion a'r teulu i gyd. Colled fawr i deulu a hynny o dan amgylchiadau mor arswydus. Meddyliwn amdanoch i gyd.

Y LLYFFANT

Fe gafodd llawer iawn o bobl bleser mawr wrth ddarllen 'Y Llyffant' cyfrol Rae Evans, Rhiwbeina, a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Abergwaun. Mae cyfle iddyn nhw brofi y pleser hwnnw unwaith eto gan fod addasiad o'r gyfrol yn cael ei gyflwyno ar S4C (nos Sulau am 9). Fe gawn ninnau ail gyfle i longyfarch Rae ar ei champwaith gan edrych ymlaen et lawer o gyfrolau i ddod.

LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i'r Athro Robin Williams, Athro a Phenaeth yr Adran Ffiseg yng Ngholeg Caerdydd, Prifysgol Cymru ar ei benodiad yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol, un o brif anrhydeddau'r byd Gwyddonol. Mae'r Athro yn hanu o Lanuwchllyn ac yn byw yn Nhrerhingyll gyda'i wraig Juli a'u plant Siân ac Alun.

126 HEOL BUTE – GLO O GAERDYDD

Ar un adeg Caerdydd oedd y lle pwysicaf yn y byd am lo, lle byddai dynion y byd diwydiant a masnach yn gwneud eu ffortiwn. Deuai morwyr o bob rhan o Brydain a gwledydd tramor yma wrth i Dde Cymru dyfu o ran ynni'r byd yr hyn yw'r Dwyrain Canol i ni heddiw.

Adroddir hanes twf Caerdydd, o dref fach gyda chei i fod yn ganolfan i ryw 70 o gwmniau llongau yn atyniad diweddaraf Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru yn 126 Heol Bute yng nghanol dociau Caerdydd. Fe fydd yn agor i'r cyhoedd ddydd Gwener, Ebrill 6.

Mae hwn yn fwy o brofiad nag o arddangosfa, ac mae'r eitemau sydd i'w gweld yn gyfuniad o fodelau traddodiadol o longau a lluniau gyda thechnoleg newydd i olrhain twf a dirywiad economaidd y dociau yng Nghaerdydd. Mae'n rhoi bywyd i hanes yr ardal a'r boblogaeth.

Mae'n debyg mai'r pwysicaf o'r modelau, i gyd yn llongau â chysylltiad â Chaerydd, yw'r model 9tr o'r llong "tramp" York City a roddwyd i'r Amgueddfa gan Lein Reardon Smith yn y 1930au. Mae'n nodweddiadol o'r llongau oger a oedd yn eiddo i deuluoedd o Gaerdydd ac yn hwylio oddi yno am y rhan fwyaf o'r amser o 1865 i 1965. Er gwaethaf y ffaith fod perchnogion llongau Caerdydd wedi cael llongau modur mor gynnar â 1923, roedd rhai ohonynt un dal i weithio'r llongau ager tan y 1960au. Canolfan nwyddau llongau oedd 126 Heol Bute as mae'n rhan o res a alwir Britannia Buildings. Cafodd ei hadeiladu yn y 1840au gan y peirianwyr sifil Hemingway a Pearson, a oedd ar y pryd hefyd yn odeiladu pont reilffordd Britannia ar draws Afon Menai – a dyna'r rheswm dros enw'r rhes.

Yr oedd Hemingway a Pearson yn defnyddio rhan o'r rhes eu hunain tra roeddent yn brif gontractwyr ar gyfer adeiladu Doc East Bute yng Nghaerdydd, ond tua 1862 prynwyd 126 Heol Bute gan Mr James Frazer o Belfast i sefydlu canolfan nwyddau llongau. Sefydlodd gangen hefyd yn North Shields, ac erbyn troad y ganrif yr oedd y busnes llewyrchus yn nwylo ei ddau fab, Joseph yn rhedeg y gangen yng Nghaerdydd a James yn North Shields.

Yr oedd Joseph Frazer yn amlwg yn y byd llongau yn Ne Cymru, a dau o'i frodyr-yng-nghyfraith oedd dau o berchnogion llongau mwyaf amlwg Caerdydd, sef W. J. Tatem a wnaed yn Arglwydd Glan Elái, a Daniel Radcliffe. Ar y cychwyn yr oedd busnes Frazer yn canolbwyntio ar Sianel Bryste ac Afon

Tyne, ond yn ddiweddarach prynodd y cwmni loriau, a olygai y gallent ddarparu nwyddau i longau mewn unrhyw ran o Ynysoedd Prydain ac ar y Cyfandir.

Ar ôl dirywiad y busnes, prynwyd yr adeilad gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru ym 1982. Yn ogystal â'r arddangosfa, yno hefyd mae casgliadau wrth gefn a llyfrgell yr Amgueddfa, y staff ymchwil ac archif ffotograffau helaeth yr Amgueddfa.

Un o 10 o ganghennau Amgueddfa Genedlaethol Cymru yw'r Amgueddfa Diwydiant a Môr, ond mae nifer o sefydliadau eraill hefyd wedi cyfrannu i drefnu'r arddangosfeydd newydd yn 126 Heol Bute. Agorir yr adeilad yn swyddogol gan Mr Anthony Reardon Smith, cadeirydd Ymddiriedolaeth Frazer a roes £15,000, rhoddwyd £21,600 gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, a £18,000 gan Fwrdd Croeso Cymru.

Mae rhan o'r arddangosfa'n ail-greu tu blaen y siopau mewn stryd yn nociau Caerdydd. Ny fyddai'r un olygfa felly'n gyflawn heb dafarn Brains, ac ynghyd â chyfraniad o £5,000 mae'r bragwyr o Gaerdydd wedi darparu ychwanegiadau ac offer ar gyfer yr Hope and Anchor, sydd wedi ei enwi ar ôl tafarn Brains a safai ar un adeg Heol Adelaide.

Arddangosfeydd ffenestr arferol fydd siop fferyllydd, y siopau ffotograiffiaeth a nwyddau llongau, a hefyd y tu blaen sy'n cyflwyno nwyddau morwrol, a fydd yn golygu y gall yr Amgueddfa arddangos rhywfaint o'i chasgliad gwych. Ond bydd y dafarn yn enghraifft go iawn, er lawer yn llai, o sefydliad Brains nodweddiadol, ac ar y muriau bydd portreadau sepia o lawer o berchnogion llongau Caerdydd yn syllu i lawr ar y cwsmeriaid.

Ar ôl cerdded yn hamddenol i'r "siopau" ac ar hyd cei gyferbyn, bydd yr ymwelwyr yn dod at fodel o dŷ olwyn llong ager nodweddiadol o Gaerdydd gyda chapten o Orllewin Cymru, a'i ran yn cael ei phortreadu'n wych gan yr actor Huw Ceredig. Bydd yn adrodd straeon am ei fordeithiau, ei lwythi a hanes y porthladd ei hyn.

"Wyddech chi," meddai wrth ei ymwelwyr, "Wyddech chi fod yna 500,000 dunelli o nwyddau wedi'u cofrestru yma yng Nhaerdydd eleni ym 1907, a hynny bymtheg gwaith yn fwy na phan hwyliais i gyntaf o Gaerdydd 40 mlynedd yn ôl?

"Rwy newydd ddod â balast o Antwerp a roedden ni yn Buenos Aires a Rosario cyn hynny. Does dim hanner y baw a'r sŵn yno ag a welwch chi yma yng Nghaerdydd. A bob tro y bydda' i'n cyrraedd yma mae'r lle'n fwy prysur a mwy stwrllyd na'r tro o'r blaen. Bob blwyddyn mae mwy o lo, mwy o longau, mwy o lanfeydd a bob amser mwy o sŵn ganol nos! Camgymeriad mawr oedd aros ar y llong.

"Wrth gwrs, rych chi'n gwybod eu bod nhw wedi agor doc newydd sbon yma ers i fi hwylio o Dde America bum mis yn ôl. Miliwn a chwarter gostiodd Doc newydd y Frenhines Alexandra – ond fe fydd wedi talu amdano'i hun mewn dim o dro os cwyd y prisiau cludo ryw ychydig. Rwy'n gobeithio y gwnân nhw – dyw 16/9d y dunnell o'r fan hon i Afon Plate gyda glo gorau Cymru ddim cystal ag oedd pethau bum mlynedd yn ôl!"

Ar ddiwedd y 18fed ganrif cyfanswm llongau Caerdydd oedd dwy "slwp" yn ôl ymalen i Fryste bob yn ail wythnos, ond erbyn 1913 roedd 10½ miliwn o dunelli o lo yn cael eu hallforio i bob rhan o'r byd o'r porthladd. Caiff twf eithriadol y porthladd o ran enwogrwydd a ffortiwn a'u ddirywiad wedyn ei grynhoi yn yr arddangosfeydd newydd diddorol hyn yn 126 Heol Bute.

Radur Ddoe y Heddiw

gan Dewi Watkin Powell

Drigain a mwy o flynyddoedd yn ôl, pe dringech i gopa'r bryn sydd rhwng Maesllech a'r Goetre Fach a throi i wynebu'r de, caech weld dinas Caerdydd fel clwstwr o dai yn gorwedd rhwng tŵr gwyn Neuadd y Ddinas ac aberoedd myglyd Taf ac Elai ac afon Elerch, filltiroedd a bydoedd i ffwrdd o'n pentref hanner gwledig ni. Gwledig, oherwydd yma, yn Radur, roedd awelon iach, coed a chaeau, a phan ddoi'r gwanwyn, briallu a llygaid Ebrill, fiol edau a gwas y neidr a chlychau'r gog a degau o flodau eraill yn eu miloedd ac yn ddigon o ryfeddod yn y gwrychoedd a'r coedlannau – nefoedd i grwydro o gwmpas a chwarae. Ond dim ond hanner gwledig am fod y lle yn dechrau denu gwŷr busnes dociau Caerdydd a bagad o athrawon a gweinyddwyr (Llond dwrn o'r olaf oedd yng nghyffiniau Caerdydd bryd hwnnw). Roedd hadau bywyd maesdref eisoes wedi eu hau.

Mae'n anodd credu heddiw, i rai fel fi a fagwyd yn y plwyf cyn y rhyfel, weld diwedd oes y cart a cheffyl. Dim ond rhyw hanner dwsin o berchenogion ceir oedd yn yr holl blwyf. Ceffylau a dynnai aradr ac og a gambo ar y deunaw fferm, rhai fel Tymynydd, Maesllech, Radur Isaf, a Chwrt Radur yn bur fawr. Dim ond yn y dau ddegau cynnar y peidiodd Radur â chynnal ei frigâd dân ei hun. Ceffylau dynnai'r unig beiriant, a gedwid mewn sied sinc ar ganol lôn yr ysgol (Park Road heddiw). Mwynheuai'r ceffyl ryddid caeau Danybryn gerllaw. Digwyddodd yr anochel. Bu tân yn un o'r tai ac erbyn galw'r frigâd ynghyd trwy ryw ddyfais semaffor, dal y ceffyl, ei gyfrwyo a'i harnesu, roedd y lle wedi llosgi'n ulw a'r tân wedi diffodd. Cymerwyd lle'r ceffyl a'r frigâd gan fodern frigâd y ddinas fawr. Ond cart a cheffyl a ddoi â llaeth o gwmpas – y llefrith newydd ei odro ac yn dal yn gynnes o fuches Maesllech neu Radur Uchaf neu'r Goetre Fach. Cart a cheffyl hefyd oedd gan Mr Price, dyn-yr-bara (yn Llandaf oedd y popty er bod cystal os nad gwell popty ym Mhentrepoeth): cart a cheffyl oedd gan y groseriaid (dau ohonyn nhw) a chart a cheffyl oedd gan y ddwy wraig a werthai lysiau, Mrs Calcatt, Tŷ Gwyn (Cymraes Gymraeg) a Mrs Welsh (ddi Gymraeg o Ystum Taf). A char a cheffyl, nid car modur, oedd gan y teulu drws nesaf i ni tan i'r car a cheffyl gael eu disodli gan Forus Cowley yn 1929.

Deuai'r postmyn heibio ddwywaith y dydd ar bob tywydd (ond nid ar y Sul). Hen gymeriadau hoffus oedd Mr David a Mr Merchant. Yr olaf a fynegodd ei ofid wrth mam un tro am na chafodd ddysgu Cymraeg wrth iddo roi cerdyn post a ddanfonais adref pan oeddwn ar wyliau yng nghartref fy modryb! Dyna'r oes pan brynai punt 180 o stampiau llythyr a'r llythyr yn sicr o gyrraedd y diwrnod canlynol.

Roedd y gwasanaeth a gaem yn drech na'r hyn a gawn heddiw hyd yn oed os oedd y dewis yn llawer mwy cyfyngedig.

Mewn gwirionedd, dau bentref oedd Radur bryd hynny, Radur ei hun o gwmpas y stesion a Phentrepoeth. Yn Radur trigau cymysgedd o deuluoedd gwŷr busnes, y llu o ferched yn eu harddegau o'r cymoedd a wasanaethai fel morynion yn nhai y rhai da (neu weddol dda) eu byd, a gweithwyr ar y lein neu yng nghweithfeydd alcam Melin Gruffydd a'r Ynys. Roedd (ac mae) Pentrepoeth (i roi ei enw iawn i Morganstown) yn gwbwl wahanol. Yno y trigai hen deuluoedd Cymreig y plwyf – y Morganiaid o'r Llewelyniaid (pileri'r achos ym Methel) ochr yn ochr, ond heb gymysgu â nhw na'u derbyn, a'r newydd – ddyfodiaid o wlad yr haf – Eglwyswyr gan mwyaf a ddaeth i weithio ar lein y Taff Vale.

Rhennid ni'r plant yn ddwy garfan, yn enwedig ar ôl streic Fawr 1926, yn blant yr Ysgol Gyngor (lle treuliais chwe blynedd hapusaf fy ngyrfa fel disgybl) a phlant a fynychai ysgol Breifat St Winifred (gyferbyn â'r Gofeb Ryfel). Byddai rhyfel agored weithiau rhwng "Ni a Nhw". Saesneg oedd iaith plant y ddwy ysgol ac er mai di-Gymraeg oedd fy nghyfoedion trwy gydol yr amser y bûm yn Ysgol y Cyngor, ni phrofais i'r sen a ddaeth i ran llawer o'm cyfoedion o'r capeli Cymraeg yn eu hysgolion dyddiol yn ninas Caerdydd, er na ellid dweud bod bri arbennig ar yr iaith Gymraeg yn ysgol Radur, doedd dim gelyniaeth chwaith ac mi es trwy'r ysgol yn llwyr argyhoeddiedig mai peth braf oedd gallu siarad Cymraeg. Dim ond un arwydd mai yn ardal Caerdydd oeddwn – rownders oedd gêm bwysica'r ysgol! Yn yr ysgol honno y dysgais rai o'r cytganau o'r oratorio Elias a rhai o ganeuon Arne.

Doedd dim lampau ar heolydd Radur tan 1937. Disgwylid i bawb, medde "Nhw", gadw golau ynghyn uwchben y drws ffrynt! Ond, yn 1937 ar anogaeth y Sgweiar lleol, Syr Lewis Lougher, mab Radur Isaf, gŵr a fu'n AS. Ceidwadol am gyfnod, ac a wnaeth ei bres drwy werthu sosej, penderfynwyd cael golau nwy ar yr heol ar y tir os nad oedd golau nwy yn ddigon da, ai i Westminster i oleuo'i dywyllwch, roedd yn ddyn da i Radur hefyd. Ni oleuwyd heolydd Radur â thrydan tan ar ôl y Rhyfel 1939-1945.

Er gwaetha'r tywyllwch, chlywais i erioed am fwrgleriaeth na lladrad nac ymosodiad. Ffynnai bywyd cymdeithasol – yn bennaf mewn neuadd bentref-hen sied bren yn perthyn gynt i'r fyddin o adeiladwyd yn "Lucky Lane" (af i ddim ar ôl tarddiad yr enw!) tu cefn i gartref presennol John a Marian Evans. Dyma lle cynhelid y gyrfaoedd chwist ac ambell "hop" i gyfeiliant gramoffôn yn y dyddiau di-deledu ansoffistigedig hynny hyd nes, rywbryd cyn dechrau'r tri degau, i'r llawr roi ffwrdd a rhoi diwedd ar y miri. Roedd pethau mwy uchel-ael yn y "Church Rooms", hanner ffordd rhwng Pentrepoeth a Radyr. Dyma lle cynhelid ambell gonsart: ac yma hefyd y cyfarfyddai holl blant y plwyf unwaith y flwyddyn i de parti er budd cartrefi Dr Barnardo. I mi, pinacl diwylliant cerddorol y pentre oedd perfformiad hudol o liwgar o ryw

opereta (does gen i ddim syniad gan bwy). Ond mae cof gen i bod merched mawr standard sics yn y corws, Lilian Lewis, merch yr arweinydd wrth y piano a'i thad, Tom Elis Lewis yn arwain. Cymro Cymraeg oedd ef, cyn annibynnwr wedi troi'n eglwyswr ac yn organydd yr eglwys. Ef a'm dysgodd i ganu'r piano er mae'n rhaid cyffesu mai disgybl difydd fum i. Roedd yn ŵr ffeind, yn gerddor da ac yn arweinydd Cymdeithas Operatig Pontypridd.

Mantais ac anfantais pentre yw bod pawb yn nabod ei gilydd yn bur ddadoedd Radur ddim yn eithriad. Gwyddem nid yn unig am liw gwleidyddol pawb a'u gogwydd crefyddol, gwyddem hefyd am eu rhagoriaethau a'u ffaeleddau ond byddai hynny'n bennod ynddi ei hun. Bellach diflannodd yr adnabyddiaeth glos yn Radur, er nad ym Mhentrepoeth, gyda dyfodiad tair ystad fawr o dai a'u poblogaeth symudol.

Ar wahân i hen deuluoedd Cymreig Pentrepoeth a fynychai gapel Bethel, y dyrnaid o Saeson o Wlad yr Haf a Dyfnaint a fynychai'r capel Wesle Saesneg ac ambell deulu fel ninnau â i'r Tabernacl neu Ebeneser yng Nghaerdydd i grefydda (a chymdeithasu) yn Gymraeg, eglwyswyr, o ran enw o leiaf oedd mwyafrif y plwyfolion. Golygfa hyfryd a barhaodd tan ddiwedd y dau ddegau (hyd nes i'r siaris – dydd Sul o'r cymoedd ddechrau dod drwy'r pentre) oedd teuluoedd cyfain yn cerdded yn hamddenol yn heidiau ar fore Sul cynta'r mis bob cam o Radur a Phentrepoeth ar ganol yr heol fawr, i'r foreol weddi yn eglwys y plwyf. Mae honno druan bellach wedi ei hamgylchynu gan faesdref o elwir wrth yr enw gwneud disail ac anghymreig Danescourt. Onid Cwrt Radur neu Clawdd Cwnstabl ddylai'r enw fod?

Rwyf am orffen trwy sôn eto am gapel Bethel. Toc wedi i mi ddod i fyw i Radur yn 1925, trowyd yr achos yn un cwbwl Saesneg. Fe gefais i'r fraint a'r tristwch o nabod y to olaf o Gymry Cymraeg cynhennid y plwyf a Chymraeg cyhyrog a phersain y Wenhwyseg ar eu gwefusau. Gofid i mi yw na fanteisiais i ar y cyfle i feddiannu peth o'u hetifeddiaeth. Y cysur yw bod yma bellach Gymdeithas Gymraeg, Cwmni Drama Cymraeg (Y Gadwyn) a Changhennau o Urdd Gobaith Cymru a Merched y Wawr. Ac uwch popeth cynnydd o 4000% (ie pedair mil y cant) o gynnydd yn nifer y rhai o dan 16 sydd yn gallu siarad Cymraeg rhagor yr un plentyn yn unig a siaradai Gymraeg yn y dau ddegau, cynnydd go sylweddol, hyd yn oed os taw maesdref yw Radur bellach!

Dewi Watkin Powell

Tîm y Wern

Croesawodd Llywodraethwyr Ysgol y Wern yr hyn a ellir ei ddisgrifio fel adroddiad ardderchog am yr ysgol. Mae'r arolygwyr yn eu hadroddiad yn pwysleisio proffesiynoliaeth yr athrawon, dan arweiniad dylanwadol y brifathrawes. 'Un o gryfderau mwyaf yr ysgol yw'r ysbryd cyd weithredol sy'n bodoli ymhlith y tîm athrawon. Mae eu parodrwydd i rannu, cyfranogi, a chyd-arfarnu mewn dull proffesiynol yn esgor ar gysondeb athronyddol wrth gynllunio a chysondeb ymarferol ar lawr y dosbarth.'

Cyflwynir cwricwlwm cyfoethog, cytbwys ac eang ac mae'r arolygwyr yn amlygu nifer o arferion da yn nhrosglwyddiad y cwricwlwm hwn megis pwyslais ar yr elfen o ddarganfod yn y broses ddysgu ac eir ymlaen i ddweud y 'cyflwynir y cwricwlwm cyfan yn ei holl amrywiaeth i blant o bob gallu drwy'r ysgol. Crewyd amgylchedd deniadol a chwaethus drwy'r ysgol. Mae safon yr arddangos yn uchel iawn. Mae enghreifftiau o waith plant wedi eu mowntio'n effeithiol ac mae hyn yn eu hannog i ymfalchio yn eu hymdrechion.

Tyfodd yr ysgol yn gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae nifer y disgyblion hynny sydd o gartrefi gyda ychydig o Gymraeg wedi lleihau. Felly, mae'n arbennig o foddhaol nodi fod yr arolygwyr yn sylwi y rhoddir lle priodol yn y cwricwlwm i'r Gymraeg a'r Saesneg a bod pob disgybl yn cael cyfle i ennill cymhwyster yn y ddwy iaith ac yn gallu eu 'defnyddio gyda hyder a balchder'. 'Trafodir gan y plant medd yr adroddiad' gynnwys llyfr, a ysgrifennwyd mewn un iaith, mewn iaith arall yn ddigon naturiol a rhwydd. Mae hwn yn fesur o'u dwyieithrwydd pur datblygedig ac yn adlewyrchiad o safonau da yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Aiff yr arolygwyr ymlaen i ddweud fod yr ysgol mewn sefyllfa dda i ymdopi â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a sylwant ar 'athroniaeth gadarn a nodau clir a gynhwysir yng nghynlluniau gwaith yr ysgol'. Cyrhaeddir safonau da ym mhob un o brif agweddau y cwricwlwm ac amlygir nifer o esiamplau o ymarferiadau da. 'Gwneir ymdrechion da i sicrhau gwahaniaethiad, weithiau o ran natur neu strwythur y tasgau a osodir, ac weithiau ar sail ymateb y plant, ond, yn bwysig iawn as yn briodol, ni chyfyngir ar y profiadau a gaiff plant sydd ag anhawasterau dysgu'.

Sylwa'r adroddiad hefyd ar yr awyrgylch cynnes, cartrefol a chwaethus lle y gall y disgyblion deimlo'n ddiogel a hyderus. 'Heb eithriad mae ymddygiad y disgyblion yn gyfeillgar a chwrtais tuag at ei gilydd, yr athrawon ac ymwelwyr.' Mae'r gwasaneth boreol yn cael lle amlwg ym mywyd yr ysgol. 'Hybir cysyniadau am ddiolchgarwch, gofal a pharch,' medd yr adroddiad, 'a gwelir effaith hyn ym ymarweddiad ac ymddygiad y plant. Bydd un dosbarth bob wythnos yn cymryd rhan, a gwahoddir rhieni plant y dosbarth hwannw i ymuno yn yr addoliad. Mae'r paratoi ar gyfer y gwasanaethau'n cynnwys trafod, cynhyrchu sgriptiau a gweddïau personol, a dysgu dorllen ac adrodd yn glir ar goedd. Mae'r cyflwyniadau graenus hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â themâu gweithgarwch y dosbarthiadau.' Yn ogystal, croesawair ymdrechion yr ysgol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r dimensiwm aml-ddiwylliannol gan yr arolygwyr, sy'n datgan fod 'hyn yn ymgyfoethogiad pellach i blant sydd eisioes yn ymgyfarwyddo'n dda â'r ddwy iaith a'r ddau ddiwylliant o berthyn i Gymru'.

Maent hefyd yn canmol y 'gymdeithas athrawon fywiog a brwdfrydig' a'r cysylltiadau agos a ffurfiwyd rhwng yr ysgolion a'r rhieni i raddau lle mae rhieni yn rhoi cymorth yn y dosbarth gyda gwaeithgareddau megis coginio, gwaith cyfrifiadur, celf a chrefft, darllen a gwaith grwp. Hefyd gwneir pob ymdrech i gyrwyddo cysylltiad ysgol/cymuned a sylwa'r arolygwyr ara y cysylltiadau da rhwng ysgol y Wern ac Ysgol Cefn Onn a leolir ar yr un safle. Canmolir hefyd y cysylltiadau agos â'r ysgolion Cymraeg eraill yn y sir ac Ysgol Glantaf.

Teimla'r Corff Llywodraethol fod yr adroddiad hwn yn cadarnhau ein barn o Ysgol y Wern ac fe'i hystyriwn fel teyrnged i waith caled a phroffesiynoliaeth yr athrawon a'r brifathrawes. Credwn, ar sail yr adroddiad hwn, y gall yr ysgol wynebu'r her a osodir gan y Ddeddf Diwygio Addysg gyda llawer o frwdfrydedd ac yr ydym yn cymeradwyo sylwadau terfynol yr arolygwyr sef 'Mae'r athroniaeth gadarn sy'n sail i waith yr ysgol hon yn sicrhau cysondeb o ddosbarth i ddosbarth a safonau addysgol cyffredinol dda. Ymdeimlir yn yr ysgol â chymuned Gymreig a Chymraeg gref sy'n anelu at gynnal traddodiadau'r famwlad, ac estyn gorwelion i gynnwys dealltwriaeth o ddiwylliant byd-eang.'

DETHERIDGE

DYLUNIO A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

FEL cwmni mae gennym dros ddeng mlynedd o brofiad mewn dylunio a chysylltiadau cyhoeddus. Ers 1979 rydyn ni wedi ymdrechu i gadw'n cwsmeriaid mewn cysylltiad â'r datblygiadau yn y diwydiant cyffrous hwn.

CAM bach yw cyrraedd y gynulleidfa rydyn ni'n anelu ati drwy ddefnyddio cyfuniad o ddulliau marchnata. Nod marchnata Detheridge yw bod yn hyblyg a gallu ymateb i'ch holl anghenion.

GADEWCH i ni'ch helpu i lunio'ch dyfodol ac ateb eich gofynion dylunio a chysylltiadau cyhoeddus.

RYDYN ni yng nghanol Caerdydd – wrth law i helpu amrywiaeth fawr o gwsmeriaid gwahanol, o fusnesau sy'n dechrau i gyrff cenedlaethol a rhyngwladol.

DETHERIDGE CYFYNGEDIG 93 Cowbridge Road East
Caerdydd CF1 9AF ☎ (0222) 223525 Fax: (0222) 383760

Bengal
BRASSERIE

Rydyn ni'n falch o allu'n prif gogydd i greu amrywiaeth eithriadol o fwydydd Indiaidd. Caiff yr amrywiaeth ar ein bwydlen ei dewis yn ofalus o blith bwydydd rhanbarthol. Fe fwynhewch brofiad blasus cofiadwy.

BENGAL BRASSERIE
147 COWBRIDGE ROAD EAST
TREGANNA, CAERDYDD CF1 9AH
☎ 0222 226687/226715

EISTEDDFOD
GENEDLAETHOL CWM RHYMNI
Awst 4-11 August 1990

Parc - Bryn Bach - Park
Rhymni



Cofiwch fod yno! Don't miss it!

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CWM RHYMNI
RHYMNEY VALLEY NATIONAL EISTEDDFOD
TEL: (0443) 821677

Blas Ar Fyw

'Y negas fydda "shwgwr a menyn a te a blawd a lard a reis a chig moch a dwy owns o faco i nhad." A wedyn: "Dôs i nôl gwerth dima o bapur i Shiop John Rowlands i mi, wnei di." Oeddan ninna'n mynd. A fyddan ni wrth ein bodd yn gweld yr hen John Rowlands yn ystyn efo ryw hen lwy bach rym fymryn ohono fo a'i roid o ar bapur, ag yn plygu'r papur 'ma neishia welsoch chi rioed.

"Wyddost ti be", medda fo, "ma 'na dri pheth i'w gael am ddima."

"Be ydyn nhw, felly, John Rowlands?"

"Pupur a phapur ac eda bacio", medda fonta.'

'A fydda rhei pobl yn neud pennog coch. On nhw'n llosgi rhedyn i fyny'n y simdda ac yn hongian y penwaig. Dwi'n cofio yn yn gwneud hynny yn Y Fron pen ôn i'n hogan bach. Fyddwn i wrth fy modd yn cael mynd yno i fusnesu, fath â fydd plant.'

Dyna ddau ddyfyniad byr o eiddo Serah Trenholme (1887-1980), Nefyn. Yn ystod 1964-76 recordiwyd y wraig ddiddorol hon yn helaeth ar dâp ar ran Amgueddfa Werin Cymru a braint a hyfrydwh arbennig i mi fu cael dethol o blith y recordiadau hyn a chyflwyno amrywiaeth o eitemau ar ddau gasét – bwrlwm o atgofion: hanes a stori, rhigwm a chân mewn iaith liwgar afiethus.

Dyma ragflas o rai o'r eitemau. Ar y tâp cyntaf: ei thaid, Robat, yn dial ar hen fwli o'r enw 'Cythral Bangor'; ei thad yn America ar adeg eira mawr a gwraig y llety yn cadw moch yn y seler; chwarae corn eithin gyda malwen; rhigwm 'Thomas Jones y llofrudd du . . .'; rhigwm 'How di do gydwngan (good woman)'; cân 'Coiminero cil y cero . . . '; cân 'Owen Dau Funud a'i Ful'; stori werin 'Abram a'r pwdin reis wedi cledu'; merch yn 'begeran'; difyrwyr pen stryd: dyn ac arth a Jac Llan a'i glepars esgyrn.

Ar yr ail dâp: Twm Nain a'i goes glec; John Parry yn gweddio a'r gath yn y jwg llefrith; Malan Moi yn canu mewn angladd; cario 'tân gwyllt' ar bolyn adeg lecsiwn; siopau Nefyn a'r iaith ar waith: 'gwerth pumrot o galico'; 'Morgan y Penwaig' o Bwllheli; cân: 'Huw jac Huws a Guto'r Felin . . . ddaliodd siarc ar Gamlas Nefyn'; John Gruffydd y Cliff yn bwrw'i groen fel neidr; y Goeden Bechod; emynau y Diwygiad: 'A glywaist ti sôn am iachawdwr y byd . . .

Ystyr 'amguedd' yw trysor, ac yn o drysorau pennaf yr Amgueddfa Werin yw'r casgliad o rai miloedd o dapiau sain a recordiwyd er 1957 – lleisiau gŵyr a gwragedd o bob rhan o Gymru yn rhoi ar gof a chadw agweddau arbennig ar ddiwylliant gwerin ein gwlad. Ein nod a'n dyletswydd ninnau yw cynnig cyfle i'r cyhoedd i wrando ar a mwynhau detholion o'r tapiau hyn, gan wireddu arwyddair yr Amgueddfa: 'Dysgu'r byd am Gymru, a'r Cymry eu hunain am wlad eu tadau.' Dyma, felly, brif bwrpas y gyfres bresennol o gasetiau sain: 'Storiau Gwerin Cymru' (pris £2.50); 'Bwydydd Gwerin Cymru' (£2.50); 'On the Best Side' (atgofion am dai Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, £2.49); 'Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg: Cyflwyno'r Tafodieithoedd' (£4.25).

Ysywaeth, prin iawn yw'r arian a dderbyniwn i gyhoeddi'r casetiau – dibynnwn bron yn gyfangwbl ar y gwerthiant. Mawr obeithiwn, felly, y bydd croeso brwd i'r casét diweddaraf hwn – casét dwbl yn cynnwys bron ddwy awr a chwarter o recordiad a bargen dda am bris o £6.00. Diolchaf innau'n ddiffuant iawn am bob cefnogaeth.

Gellir cael copi o'r casét, neu unrhyw un o'r gyfres, drwy anfon at: Beth Thomas, Adran Bywyd Diwylliannol, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB.

ROBIN GWYNDAF

Arddangosfeydd

FFOTOGALLERY – 31 HEOL SIARL

UNKNOWN DEPTHS
TAN 12 MAI

Lluniau o Derry, Gogledd Iwerddon gan Willie Doherty. Ffotografau mawr eu maint mewn lliw a du a gwyn yn cynnwys nodiadau sy'n chwilio'i mewn i'n hamgyffrediad a'n deall o wleidyddiaeth, diwylliant, a chymdeithaseg.

ORIEL
– HEOL Y BRODYR LLWYDION
PEINTIADAU 1960-69
ALBERT IRVIN
12-31 MAI

Gweithiau haniaethol gan un o brif artistiaid y dull ym Mhrydain heddiw

AMGUEDDA GENEDLAETHOL CYMRU Y PRIF ADEILAD
PARC CATHAYS

i. Arian a Medalau **O 14 MAI**

Arddangosfa barhaol o arian o'r hen Fyd at ein dyddiau ni ac o fedalau a gyflwynwyd i arwyr. Casgliad fydd o ddiddordeb i ysgolion sy'n astudio defnydd o arian ar hyd yr oesoedd.

ii. Celf yn yr Orielau Dwyreiniol **PARHAOL**

Gan fod yr orielau ar agor unwaith eto, cyfle da i fwrw golwg dros y newidiadau gwych, ond hefyd i fwynhau y cyfoeth darluniau. Er enghraifft, yn Oriel 7 gweler 14 o beintiadau gan Augustus John a 7 gan Gwen John. Os mai doddrefn celfydd a llestri hardd o bob math yw eich diddordeb, gwelwch rheini yno hefyd.

TEYRNGED

Ni all geiriau moel ar ddu a gwyn fel hyn fyth fesur maint y golled o farwolaeth Sali. Ni allant chwaith fynegi ei chyfraniad gwerthfawr i fywydau cymaint ohonom, yn ffrindiau ysgol a choleg, athrawon a theulu. Cyffyrddodd ei serchowgrwydd galonnau di-ri yn ystod ei bywyd ifanc byr.

Cofiaf yn glir y diwrnod cynta' hwnnw yng Ysgol Glantaf dros ddegawd yn ôl: dosbarth o ddisgyblion newydd ac yn ein plith yr oedd Sali. Â'i llygaid yn pefrio mynegodd ei chariad dros yr iaith a'r diwylliant Cymreig, ac yr oedd ei gorchestion yn esiampl wych i lawer o'i chyfoedion.

Merch ddeniadol oedd Sali ac er ei breuder allanol 'roedd cymeriad cryf a phenderfynol yn perthyn iddi. Taflodd ei hun i fywyd yr ysgol, ei heglwys a'i chymdeithas. Doedd dim diwedd i'w diddordebau na'i doniau.

Cawsom lawer o hwyl yn ei chwmni, yn gwesylla yn Llangrannog a Glanllyn, yn cyd-adrodd mewn eisteddfodau niferus, ar dripiau ysgol i Lundain a Pharis, i sgio yn Awstria . . . 'Roedd Sali bob amser yn un o'r criw, yn barod ei chyfraniad ac yn aeddfed ei mynegiant.

'Roedd Dydd Gŵyl Dewi eleni yn ddiwrnod prudd i lawer ohonom. Dygwyd Sali ar drothwy cyfnod anturus yn ei bywyd ac y mae'r bwlch enfawr a adawodd ar ei hôl yn dystiolaeth o'r argraff ddofn a greodd ar fywydau cynifer. Ond yn fwy na dim cofiwn lle fo'r golled fwyaf, gyda'i rhieni a'i brawd Robert ar yr aelwyd yn Heol Kelston.

Eleri Morgan

(Sali Arnold, 8 Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd. Bu farw ar Fawrth 1af yn ddwy ar hugain oed.)

EISTEDDFOD DYSGWYR MORGANNWG A GWENT

Y llynedd, yn unfed Eisteddfod ar ddeg Dysgwyr Morgannwg a Gwent gwelwyd Canolfan yr Urdd dan ei sang a chymaint oedd y cystadlu fel na ddaeth yr Eisteddfod i ben tan wedi hanner nos!

Eleni, oherwydd llwyddiant y llynedd penderfynwyd bod angen lle mwy a threfnwyd i gynnal yr Eisteddfod yn Ysgol Gyfun Glantaf yn Ystum Taf ar nos Fercher y 4ydd o Ebrill.

Disgwyliwyd am y tyrfaoedd ond o! y fath siom. Chafwyd neb yn cystadlu yn yr adran goginio a phrin neb wedi cystadlu yn yr adran Gelf a Chrefft, ac ar ben hynny tenau oedd y cystadlu drwyddi draw yn yr Adrannau eraill. Beth oedd o'i le eleni tybed? Gwnaethpwyd yr un trefniadau ag arfer a dosbarthwyd dros fil o gopiau o'r testunau drwy Forgannwg a Gwent.

Ond er waethaf yr ymateb siomedig cafwyd noson digon hwyliog a phawb oedd yn bresennol wedi mwynhau'r noson a'r achlysur. Am y tro cyntaf cafwyd nawdd i'r Eisteddfod gan Acen, HTV, Cymdeithas Canna, Cangen CYD y Bontfaen a llu o garedigion yr achos yn Sir De Morgannwg. Mae trefnwyr yr Eisteddfod yn ddibyngar iawn ar y nawdd yma.

Arweiniwyd yr Eisteddfod gan Cefin Campbell, yr beirniaid oedd Mair Robbins – Cerdd, Robin Jones – Adrodd, Heulwen Jones – Llên, Amanda Loosemore, Gary Moore – Celf a Chrefft a'r gyfeilyddes swyddogol oedd Delyth Evans. Prif gystadleuwyr y noson oedd Politechneg Cymru a dysgwyr Bargod, a nhw a orfu ar ddiwedd y noson. Croesawyd Llywydd Anrhydeddus yr Eisteddfod, Tim Baker, Cyfarwyddwr Artistig Cwmni Theatr Gorllewin Morgannwg a brodor o Reading. Cafwyd araith ffraeth a hynod ddifyr ganddo a chyfaddefiad taw hwn oedd ei ymweliad cyntaf ag Eisteddfod!

Yn ystod y nos anrhydeddwyd llenor gorau'r Eisteddfod am 'sgrifennu dilyniant o dri llythyr ar y testun "Cydwybod" a chyflwynwyd tlws hardd ar ffurf plât addurniedig o Grochendy Molly Curley Llanishen i'r buddugol sef Mary Galpin. Mae hi'n hannu o Southport ac wedi dod i fyw yng Nghymru dair blynedd yn ôl ar ôl ymddeol yn gynnar o'i swydd fel darlithwraig fathameteg ym Mholitechneg North Staffs. Bellach mae hi'n byw ym mhentre Glyn Tawe ger ogofeydd enwog Dan yr Ogof. Dysgodd Gymraeg yn Ystradgynlais a Banwen.

Uchafbwynt y noson i amryw gan gynnwys Falmai Griffiths, ysgrifennydd diwyd Eisteddfod y Dysgwyr ers y dechrau, oedd camp Anette Davies gynt o Dreherbert, Cwm Rhondda, yn adrodd rhan o nofel Islwyn Ffowc Elis "Wythnos yng Nghymru Fydd" yn sôn am farwolaeth yr iaith Gymraeg. Cymaint oedd mwynhad y gynulleidfa o'i hadrodd teimladwy a sensitif fel y galwyd hi'n ôl i'r llwyfan i ail adrodd y darn.

Mae Cyngor y Dysgwyr yn ddiolchgar i bawb a gefnogodd yr Eisteddfod eleni gan obeithio am well lwc iy tro nesa sef y drydedd Eisteddfod ar ddeg!

Gwilym Roberts

LLONGYFARCH

Llawenhawn ar ddyrchafiad a'r anrhydedd ddaeth i ran Y Parchedig Ganon Jim Keane yn ddiweddar, Y mae bellach yn Ganghellor Eglwys Gadeiriol Llandaf.

MÔN-
MAM CYMRU

"Mi awn i weld Môn unwaith eto . . .
am fod rhyw henaint tawel ar ei herwau hi."

Islwyn Ffowc Elis



Ceir Manylion am wyliau Ynys Môn oddi wrth:

Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn
Canolfan Croeso
Ffordd Caergybi
Llanfairpwllgwyngyll
Ynys Mon, Gwynedd
Ffôn (0248) 713177

Sterling Gofalaeth Asedau Asset Management

MAE STERLING WEDI AGOR SWYDDFA NEWYDD YNG NGHAERDYDD

Gyda swyddfeydd led-led Cymru medrwn gynnig gwasanaeth proffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg ar:

- **FORGEISI**
- **BENSIYNAU**
- **FUDDSODDIADAU**
- **GYNLLUNIAU CYNILO**
- **YSWIRIANT BYWYD**

Cysylltwch â
Michael Rees
John Wyn Williams
Ioan Cornwall

(0222) 228950 · 28/31 St Mary Street, Caerdydd

YMGYNGHORWYR BUDDSODDI MORGAIS PENSIYNAU

Mae Gofalaeth Asedau Sterling yn gynrychiolydd apwyntiedig o Grŵp a Royal Life Insurance Cyf. (Aelod a Lautro)

SWMP

Y datblygiad diweddara yn hanes darlledu chwyldroadol Cwmni'r Hydd yw rhaglen radio newydd SWMP.

Falle nad ych chi'n nabod Gaynor Jones eto – ond rhowch bythefnos y tu ôl i'r meic iddi, ac mae'n siwr o dyfu i statws chwedlonol mawrion fel Gill, Bobs a Margaret Williams.

Brodor o Broad Oak (ar bwys Llandeilo) yw Gaynor – ac yn ystod ei bywyd byr, mae wedi cael blas ar agweddau amrywiol Dynoliaeth – yn ei chyfanrwydd, y da a'r drwg, y purdeb a'r poen.

Bu'n Gogyddes, yn gynorthwywraig ofal, yn iswarden mewn canolfan i droseddwyr ifainc, yn werthwraig hot dogs – ac os bydd i'r antur diweddara hon i fyd darlledu fethu, mae ganddi yrfa fel gwraig lolipop mewn golwg.

Ond mae Cwmni'r Hydd y ffyddiog na fydd yn rhaid i Gaynor droi at y stryd. Gyda chyfuniad unigryw o ddeallusrwydd, hiwmor, consarn dros y Ddynoliaeth – ynghyd â'i gallu cerddorol gwych – mae SWMP yn rhaglen sydd yma i aros.

GARETH MORGAN
M.Phil., H.N.D.
Arlunydd ac Arbenigwr mewn gwydr lliw
Ffenestri, drysau, sgriniau, paneli i'w hongian
Dim patrymau
Pob un yn unigryw. Mwy na 'leaded lights'
Beth am gael rhywbeth â thema Gymreig?
18, HEOL GOFFA, LLANELLI, DYFED SA15 3EJ
Ffôn: 0554 – 754973

Swyddog Datblygu Newydd

Mae'n bleser cael croesawu Mrs Jo Knell fel Swyddog Datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin yng Nghaerdydd.

Daw Jo atom i olynu Elaine Pye roes wasanaeth ardderchog i'r Mudiad am dros i bedair mlynedd. Diolchwn yn fawr i Elaine a dymunwn yn dda iddi at y dyfodol.

Mae Jo yn briod a chanddi un plentyn. Mae'n hannu o Gernyw ond mynychodd Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ac fuo y cyfarfu a'i gŵr ac y daeth i gysylltiad â'r Gymraeg.

Wedi gadael y Coleg bu'n Drefnydd Cymru, Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr a bu'n cydweithio gyda Chymorth Cristnogol, Cyngor Eglwysi Cymru a Gwrth Apartheid. Treuliodd gyfnod hefyd yn gweithio yn Theatr y Sherman Caerdydd.

Cychwynnodd ddysgu Cymraeg ddeunaw mis yn ôl yn unig ac er na fyddai hi'n cytuno mae ganddi afael arbennig iawn ar yr iaith ac fe newidiodd iaith yr aelwyd. Fe ddywed mai wedi iddi ddysgu'r Gymraeg y daeth i ddeall enwau lleoedd Cernyw. Daw atom a phrofiad gwerthfawr o fod yn Ysgrifennydd Cylch Meithrin Tŷ'r Cymry Ffordd Richmond, Caerdydd ac Ysgrifennydd Rhanbarth Caerdydd, Mudiad Ysgolion Meithrin.

Rwy'n siwr y caiff Jo groeso cynnes ymhlith holl aelodau'r Mudiad yn y ddinas ac yn ei chysylltiadau ehangach. Bu gweddnewid ar y gyfundrefn addysg Gymraeg yn y ddinas dros y blynyddoedd ac rwy'n siwr y bydd Jo yn medru cynnal a hyrwyddo y cynnydd hwn. Os ydych am gynnig cymorth iddi yn y gwaith pwysig hwn ei rhif ffôn yw 490315.

Croeso brwd atom Jo ac rwy'n siwr fod blynyddoedd cyffrous iawn o'th flaen.

DINESYDD

TRWY'R POST

Os hoffech dderbyn eich copi personol o'r Dinesydd bob mis am y flwyddyn, yn rhad ac am ddim, llenwch y ffurflen yma a'i hanfon yn ôl i Detheridge Cyf, 93, Cowbridge Road East, Caerdydd CF1 9AF

ENW .....

CYFEIRIAD .....

COD POST .....

Amgaeaf siec am £4 ..... i dalu am bostio deg rhifyn yn unig, yn daladwy i "Detheridge Cyf".

HEL MEDDYLIAU

Mae gan fy ngwraig un peth yn gyffredin ag Eifion Wyn: fe'i ganed hithau ym mis Mai, ond nid yn yr un flwyddyn. Fe'i ganed ef ar yr ail o Fai 1867! "Gwyn fy myd bob tro y dêl" meddai'r bardd am fis Mai. Plentyn ei oes oedd Eifion Wyn a barddoniaeth ei oes oedd ganddo.

Yn ei gofiant i'w dad, sonia Peredur Wyn Williams am garedigion tre Porthmadog, er i ugain mlynedd fynd heibio ers claddu ei dad, yn mynd ati i godi arian i roi tabled goffa ar fur y tŷ lle ganed Eifion Wyn – 10, Garth Terrace – a meddai: "Mewn cyfarfod cyhoeddus ar 6 Mehefin 1956, cefais i'r fraint o ddadorchuddio'r garreg . . . Canwyd dau o emynau fy nhad gan y cynulliad . . ." Fel Max Boyce ar adeg arall, gallaf finnau ddweud yma "Roeddwn i yno." Gan fy mod yn weinidog yn eglwys Salem yn y dre bryd hynny, lle bu Eifion Wyn yn aelod – a chael i fedyddio, gyda llaw, gan Emrys, y bardd a'r emynydd – cefais ledio un o'r emynau hynny, sef "Un fendith dyro im . . ."

Cofiaf iddi fod yn brynhawn heulog braf a rhywun wedi cael gafael ar yr harmoniwm leiaf a welais i erioed i helpu'r canu yn yr awyr agored. Nid dyna'r unig atgofion, wrth gwrs, am yr achlysur hanesyddol hwnnw.

Ym mynwent Chwilog y claddwyd Eifion Wyn a rhoddwyd maen coffa ar ei fedd a'i ddadorchuddio ar Fai 19, 1934 gan Lloyd George. Yn ei anerchiad gofynnodd: "Sut y dewisai destunau ei ganeuon? Nid i 'goncordance' yr âi ef am ei destun eithr i Feibl Natur . . . Nid wrth orchymyn na rhaglen y canai. O'r galon y ffrydiai ei feddyliau . . ." Ar y maen ceir cwpled gan Tryfanwy:

"Dy genedl gâr dy geinwaith,
Os ei rin fydd oes yr iaith."

YR EMYN

'Roedd stori ar led ym Mhorthmadog am yr emyn uchod. Gan fod Eifion Wyn mor eisteddfodol-lwyddiannus, aethai ambell i fardd anfuddugol yn eiddigeddus iawn ohono. A meddai un o'r giwed honno wrth gyfaill iddo: "Glywest ti?Ma' Eifion Wyn wedi cyfansoddi emyn sy'n sôn am gael gras i garu Duw – 'Cael gras i'th garu Di tra fwy, Cael mwy o ras i'th garu 'medda' fo. 'Does dim eisiau gras i garu Duw. Ma' eisiau gras i garu ambell i ddyn ond 'does dim eisiau gras i garu Duw"! A rhaid i mi gyfaddef, pan fyddwn ni'n canu'r emyn hwn mewn gwasanaeth, daw'r stori hon yn ôl i'r cof yn ddieithriad!

WILLIAM JONES

Bardd mawr arall o'r cylch oedd y Parch William Jones, Tremadog, awdur y ddwy gyfrol o farddoniaeth "Canu Rhiannon" a "Sonedau a Thelynegion", ac awdur y faled swynol a phoblogaidd, "Llanc Ifanc o Lŷn" a anfarwolwyd gan Hogia'r Wyddfa, wrth gwrs. Roedd yn fwy o fardd nag Eifion Wyn i rai ohonom ond mae'n amlwg ei fod yntau'n edmygydd mawr o waith Eifion Wyn a chanodd delyneg hyfryd iawn iddo:

"Dywedant ym Mhorthmadog
Ffarwelio o Eifion Wyn
Ers amser â'i magwyrydd
A chilio i lawr y Glyn.

Ond cerddaf lawer diwrnod
Trwy heol fawr y dre,
Heb weld o'r 'Queen's i'r Harbwr
'Run wyneb ond efe."

Ie, mis Eifion Wyn yw mis Mai i mi. A mis fy ngwraig, wrth gwrs: nid pawb sy'n cael yr haf ar ei aelwyd drwy'r flwyddyn gron.

Huw Ethall

Cymdeithas Gymraeg Dinas Powis

Yn y rhifyn hwn o'r 'Dinesydd' cewch glywed am ein cyfarfodydd yn ystod y tri mis a aeth heibio. Er mai yn ôl yn Chwefror bell y daeth John Owen a'i gwmni drama o Ysgol Gyfyn Rhydfelen atom, mae'r digwyddiad yn fythgofiadwy! Cawsom wefr wrth wrando ac edrych ar yr actorion ifanc yn perfformio 'Kitch', a hyn oll gyda naws bendithiol eglwys Sant Pedr yn ein hamgylchynnu ac yn ychwanegu at noson arbennig iawn yn ein hanes fel cymdeithas. Llongyfarchiadau a diolch calon i John Owen a'i gwmni! Llywiwyd y noson yn ddeheug gan ein Llywydd, Rowland Owen a cafwyd gair hefyd gan ein Cadeirydd Rhodri Jones.

Daeth mis Mawrth! a llu o ddathliadau i'n Nawdd Sant Dewi i brysuro ei ddyfodiad. Cawsom ginio ardderchog yng nghlwb BP y Sili yng nghwmni Bob Symmons ein siaradwr gwâdd a'r telynores Eluned Schofield. 'Roedd hi'n noson hyfryd a'r gwmniaeth yn hamddenol brâf fel arfer. Diolch i Moyra Owen ein hysgrifenyddes am y trefniadau penygamp ac i'n Cadeirydd Rhodri Jones am rhoi sêl ei fendith ar Noson y Dathlu.

Dyma ni wedi cyrraedd Ebrill ac yn wir holl aelodau'r Gymdeithas yn edrych ymlaen at noson o 'Frethyn Cartre' wedi'i drefnu gan Betsan a Howard Evans. Noson hyfryd dros ben – paned o goffi a bara brith a phice ar y mân wrth gwrs ond uchafbwynt y noson heb amheuaeth oedd sgwrs Helen Skinner (gynt Davies) o'r Hendy ger Pontarddulais ar wisgoedd Gymreig ein Dawnswyr Gwerin. Daeth y modelau allan yn eu tro – yn wŷr ac yn wragedd! – i ddangos ein gwisgoedd traddodiadol Cymreig gan ganolbwyntio ar y ffordd yr addaswyd y defnyddiau a'r patrymau er mwyn hwylustod i'r dawnswyr. Diolch y fawr am noson ddymunol dros ben.

Byddwn wrthi cyn bo hir yn trefnu'n Bar-a-Chyw blynyddol. Cewch manylion pellach a dyddiad pendant yn y rhifyn nesaf o'r Dinesydd.

Hwyl am y Tro

Owena Hopwood

LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Siân Rhiannon ac Euros Rhys Evans ar enedigaeth merch fach. Testun llawenydd i'r ddau deulu yw croesawu Elen Ifan i'r byd. Pob dymuniad da i chi.

Y CALENDAR

MAI . . .

2: Cymdeithas Minny Street – "Atgofion", Mr Elfed David.

12: Cymrodorion Caerdydd – Gwibdaith yng ngofal Ifor Rees.

14: Merched y Wawr, Cangen Caerdydd yn Festri Minny Street.
Noson yng ngofal Mr W J Jones.

14: Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd – "Yr Effaith Tŷ Gwydr", Mr David Davies.

18: Cymrodorion Caerdydd yn Festri Minny Street – Cyfarfod Blynyddol.

22: MYW. Llanbedr y Fro – Ysgol Rhydfelin yn cyflwyno Kitch 7.15. Capel Bethania Clawdd Coch.

23: Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro – Cyfarfod Cyffredinol.

MEHEFIN:

6: Merched y Wawr (Radur): "Hen Drysorau", Mary Wiliam.

12: Cychwyn am 6.00 o'r gloch o Canolfan yr Urdd, Caerdydd. Taith Seiclo/Cerdded Noddedig.

27: Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro: Y Dr Douglas Bassett.
Cymdeithas Minny Street – Gwibdaith Haf yng ngofal Havard Gregory.
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Gwibdaith i Gydweli – Cofeb Gwenllian.

26: Cychwyn am 6.00 o'r gloch o Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Helfa Drysor Blynyddol y Ganolfan.

YN EISIAU ARWEINYDDES I YSGOL FEITHRIN Y WAUN, CAERDYDD AR GYFER LLUNGWYN NEU MEDI 1990. ORIAU 4 BORE o 9.30 tan 12.30

Manylion:
Bethan White ffôn 619538
Gwenda Craddock ffôn 492314

CYMDEITHAS DDRAMA'R CRWYS

Bws i Lundain – £7.00
SADWRN MAI 12

Manylion:
Aled Evans 494376
Elizabeth Shore 758878

MENNA'N MANYLU

Ddiwedd Ebrill a dechre Mai bûm yn gweithio (cael fy hyfforddi fel cynorthwydd dilyniant) efo ffilm arbennig fydd i'w gweld ar y sgrin fawr a'r sgrin fach tua'r Nadolig nesa, sef "O M EDWARDS". Ffilm ar y cyd ydi hon rhwng y BBC, Ffilmiau Eryri a Ffilm Cymru, yn adlewyrchu bywyd cynnar OM hyd ei flynyddoedd olaf yn Llanuwchllyn. Yn fras, fel rhagflas i'r ffilm dyma beth o'i hanes yn ôl a ddysgwyd i ni yn yr ysgol newydd a godwyd yn y 1950au er cof amdano.

Mab i Beti ac Owen Edwards oedd a drigai mewn tyddyn yng Nghwm Cynllwyd o'r enw Coed y Pry – ond mewn tyddyn arall, llai enwog hwyrach i sef Caerhys y bu ran helaethaf ei amser yn yr ardal. Roedd ganddo dri brawd iau – Thomas (arosodd adre i ffermio) John ac Edward (aeth i Golegau Prifysgol hefyd) a mynychai'r pedwar yr ysgol Sul yn y Llan. Owen Williams Rhyd-fudur oedd ei athro Sabathol a chefais gyfle tra'n ffilmio i ymweld â'i fedd o yn ogystal ag un teulu Coed y Pry yn hen fynwent y Pandy.

I ysgol y Llan aeth OM, ac afraid ydi nodi ei hanes y cael ei wrthod, fel y plant eraill, i siarad Cymraeg. Ac ar derfyn amal i ddydd ef gâi'r wialen fedw gan fod y darn pren a'r "Welsh Not" am ei wddw ar ôl torri'r rheol.

Yna bu O M yn ysgol Ramadeg y Bala ac oddi yno i Goleg y Bala – cyfnod lle dechreuodd bregethu yn ardal Penllyn. Yna i Goleg Prifysgol Aberystwyth a sefyll arholiad ym Mhrifysgol Llundain, cyn ymuno â'i ffrind John Puleston Jones ym Mhrifysgol Glasgow. Yna enillodd ysgoloriaeth yng Ngholeg Balliol, Rhydychen. Y pwnc yr ymddiddorai fwyaf ynddo oedd Hanes, ac er gymaint Cymro ydoedd, cafodd radd BA mewn Saesneg! Pwnc arall oedd wrth fodd ei galon oedd Natur a hiraethai o hyd am weld nentydd a choedydd cartrefol ei ardal enedigol.

'Nôl odre hefyd roedd ei gariad yn byw' sef Ellen Davies, y Prys, Llanuwchllyn a ddaeth yn wraig iddo yn 1891. Cafodd y ddau dri o blant, Owen ab Owen, Ifan a Haf. Bu ab Owen farw'n blentyn ifanc iawn a gwyddom am enwogrwydd Ifan ab Owen yn sefydlu'r Urdd.

Roedd OM yn 'sgwennu llawer yn iaith ei fam ac yn yr iaith fain a fo oedd golygydd Cymru a Cymru'r Plant a llyfrau fel "Clych Atgof", "Cartrefi Cymru" ac "O'r Bala i Geneva" – gan iddo dreulio peth amser yn teithio'r cyfandir.

Er i'r teulu ddod nôl i fyw i Lanuwchllyn (i'r Neuadd Wen) rhaid oedd iddo drafeilio nôl a mlaen o gwmpas y wlad gan iddo gael ei wneud yn Brif Arolygwr Addysg Cymru. Unig iawn oedd bywyd Elin yn y tŷ mawr ac erbyn 1914 roedd Ifan wedi cael ei yrru i'r rhyfel i Ffrainc ac roedd Haf hefyd wedi gadael cartref i fynychu un o golegau Llundain.

Digwyddodd llawer o bethau i OM a'i deulu na ddysgwyd i ni yn yr ysgol – ee ei fywyd personol a'r effaith gafodd hynny ar iechyd ei wraig. Bydd y cyfan yn cael ei ddatgelu yn y ffilm arbennig hon, felly os am wledd i'r llygaid a gwledd o wybodaeth – cofiwch ei gwylio.

LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Mrs Bya Johnson, Manor Way ar gyrraedd penblwydd arbennig iawn ar Ebrill 7fed. Treuliodd y diwrnod gyda'i mab Douglas a'i wraig Jean a'i hwyrion a'i gorwyrion. Dymuniadau gorau iddi.

LLONGYFARCH

Dymunwn yn dda i Siân Boobier, merch Cit a chwaer David ar achlysur ei phriodas y mis yma â Iwan Hughes mab Beti ac Arfon Hughes o Ben Llŷn. Boed haul ar y fodrwy yng nghapel Tabernacl ar y 6ed i Fai.

CROESO

Croeso'n ôl i Gaerdydd i Betsan Powys. Y mae hi newydd ymgymryd â gwaith yn y BBC. Bydd yn siwr o deimlo'n gartrefol unwaith eto yn ein mysg, pob dymuniad da Betsan.

LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Nia a David Boobier ar enedigaeth mab bychan Rhydian, Brawd bach i Hawys ac Wyr bach i Cit, Moira ac Alwyn Samuel. Testun llawenydd i'r ddau deulu. Rhannwn eich llawenydd.

ADRODDIAD DDIWEDD TYMOR – YSGOL GLANTAF

Yr Eisteddfod

Wrth fwrw golwg yn ôl dros y tymor, yn sicr un o'r uchabwyntiau oedd yr Eisteddfod Gŵyl Ddewi a chymaint oedd safon y cystadlu a brwdfrydedd y llysoedd fel yr dyfarnwyd yr un fwyaf llwyddiannus eto. Yn yr Ysgol Isaf enillydd y Gadair oedd Carys Moseley a rhannwyl y Rhuban Glas offerynnol rhwng Eleri Price a Carys Moseley. Sian Williams oedd enillydd Cadair yr Ysgol Uchaf, a chafodd y fraint o eistedd ar gadair newydd sbon a luniwyd yn grefftus gan Mr Henry Evans. Gareth Carwyn enillodd y Rhuban Glas offerynnol.

Fel rhan o'r gweithgarwch eisteddfodol cynhaliwyd Gŵyl Ddrama i lwyfannu'r dramâu buddugol. Dyfarnwyd Grŵp Dosbarth 4 yn bencampwyr a chyfle i ymarfer eu doniau gyda HTV.

Ymweliad

Ar yr union adeg rhyddhau Nelson Mandela o'r carchar, ymwelodd Aida Motah o Dde Affrica â'i Ysgol isaf. Â hithau yn frodor o Soweto, wrth ymyl Cartref Mandela, nid rhyfedd i'r disgrifiadau byw o amgylchiadau'r wlad honno greu argraff ddofn. Ymfalchiodd hithau hefyd fod y disgyblion ifainc mor ymwybodol o'r sefyllfa yno ac yn dangos cymaint o gonsyrn am ddyfodol y "bobl dan orthrwm".

Teithiau

Bu tîm Rygbi yn Ysgol isaf yn ymweld ag Iwerddon dros wyliau'r Pasg, a bu timau Pêl Rwyd Blwyddyn 1, 2 a 3 yn mynychu cwrs Pêl-rwyd yn Valkenburg yn yr Iseldisoedd. Yn gynharach yn y tymor cafodd merched y timoedd hoci a phêl-rwyd Blwyddyn 1 a 3 gyfle i chwarae yn Sir Benfro ar benwythnos hir. Dymunwn yn dda i Melanie Corp a Sarah Beynon sydd yn cynrychioli Cymru ar ran mudiad y 'Girl Guides', y naill ar gwrs yn Japan a'r Urdd yn Helsinki.

Hefyd *llongyfarchiadau* i'r canlynol:
– Geraint Franus, Pencampwr gymnasteg De Morgannwg, ar ei ddewis i dîm Cymru yn erbyn yr Alban.
– Huw Williams sydd wedi cynrychioli tîm ffenso Cymru yn erbyn yr Alban.
– Anna John a fu'n chwarae i dîm Hoci Cymru dan 18 yn yr Iseldiroedd.
– Siwan Stephens (Blwyddyn 4) yn aelod o garfan tennis Cymru dan 15.
– Huw Harries sydd wedi chwarae drwy'r tymor yn nhîm rygbi Ysgolion Cymru dan 18.
– Jason Hewlett sydd yn nhîm rygbi Cymru dan 16.
– Emma Thompson a enillodd y teitl 'Rhythmic Gymnastics' Cymru.
– Llongyfarchiadau i dimoedd pêl rwyd yr Ysgol Isaf a fu'n llwyddiannus yng Nghornest Ysgolion De Morgannwg, ac i Dîm Rygbi Saith-bob-ochr yr ysgol a enillodd gystadleuaeth ysgolion De Morgannwg ar ddiwedd y tymor.

Rygbi

Gelli'r rhoi adroddiad rhagorol i Dîm Rygbi yn Ysgol ar ddiwedd ei tymor a llwyddodd y perfformiadau yng nghystadleuth au Cwpan Cynghrair Cymru i ennill enw da iddynt tu allan i'w nulltir sgwar. Colli yn y Rownd Gyn-der- fynol i dîm cryf Coleg Chweched Dosbarth Castell Nedd (enillwyr y Cwpan) fu eu hanes, ond llongyfarchiadau mawr i'r garfan am safon y rygbi a'u llwyr ymroddiad drwy'r tymor.

Cyfle i ymlacio felly oedd achlysur y gêm yn erbyn cyn-ddisgyblion Glantaf yn wythnos olaf y tymor, ond er i dîm yr Ysgol drechu, dangosodd y cyn-ddisgyblion bod doniau disglair Glantaf yn dal i befrio ar feysydd rygbi led led y wlad.

Hoci

Hyfryd oedd croesawu yn ôl cymaint o gyn aelodau o dinoedd hoci merched yr ysgol ar yr un prynhawn, ac mewn gêm llawn medrau yn erbyn yr Ysgol. Cyfartal oedd y sgôr 2-2.

Tîm y cyn-ddisgyblion:
Lis Williams, Eleri Jeffreys, Louise Walpota, Bethan Williams, Nia Rees, Sarah Lloyd, Nia Tudno Jones, Menna Daniel, Julie Jones, Sharon Williams, Carol Owen, Kate John, Sian Davies.

Braf fyddai gweld timoedd o gyn-ddisgyblion Glantaf yn chwarae yn rheolaidd fel rhai o ysgolion hŷn yr ardal.

Cyngerdd mawr y Pasg

Dŷma gyngerdd mawr ymhob ystyr y gair ac yn deyrnged teilwng iawn i Sally Arnold un o gyn ddisgyblion anwylaf yr Ysgol a fu farw mor frawychus o sydyn ar ddechrau Fis Mawrth. Ar hyd y blynyddoedd mae safon broffesiynol cerddorion yr ysgol wedi synnu cynulleudfaoedd, ond rhagorwyd ar hyd yn oed yn rheini ar Nos Iau olaf yr tymor yn y cyngerdd arbennig hwn.

Fel arfer nid wrth ei hyd y dylid mesur llwyddiant cyngerdd ond y tro hwn roedd hyd y noson ond yn ategu at y pleser wrth i'r gynulleidfa flasu profiadau cerddorol mor amrywiol a meistolgar, boed yn ganu cerdd dant o'r Ysgol Isaf, neu berfformiad y côr mawr o ddau gant o leisiau, neu ddatganiad offerynnol neu leisiol gan yr unawdwyr, y gerddorfa a'i grŵp jazz. (Nid rhyfedd i'r grŵp jazz y Ysgol ennill cystadleuaeth. Noson gofiadwy iawn dan nawdd y Daily Telegraph!)

Staff

Blin yn ffarwelio â dwy athrawes y tymor hwn. Cydnabyddwyd gallu Iona Davies gyda'u hapwyntiad yn Bennaeth yr Adran Ffrangeg yn Ysgol Dyffryn Teifi a mae Glesni Evans, athrawes dros dro, yn ein gadael i brofi ychydig ar fywyd Awstralia. Diolch am eu hymroddiod a'u cyfraniad i'r ysgol.

Apwyntiwyd Jane Ross i gymryd y lle yn yr Adran Ffrangeg. Yn enediol y Ynysoedd yr Orkneys, penderfynodd ddod i Goleg y Llyfrgellwyr yn Aberystwyth ar ôl graddio yn Aberdeen, ac erbyn hyn cymaint yw ei gafael ar y Gymraeg, fel y mae'n awyddus i ddysgu yng Nghymru.

Er da er drwg, mae ysgol Glantaf ers Ebrill 1af yn gyfrifol am reoli cyllideb ei hun, cynllun yr LMS fel yn gelwid, ac fe olyga hyn gyfrifoldebau ychwanegol ar y Prifathro, yr ysgol a'r llywodraethwyr. Hefyd mae'r Ysgol yn rhan o gynllun ADAG y Sir (TVEI) – Cynllun Addysg Dechnegol a Galwedigaethol a bydd obligiadau hwn i'w ganfod ar gwricwlwm y Ysgol.

DYDDIAD COPI
RHIFYN MEHEFIN
11 – 05 – 90

CROESO

Croeso i Gwenno Lois merch Siriol a Robert Roberts. Fe'i ganed ar Fawrth 26ain a Lisa Heulyn yn falch iawn o gael chwaer fach. Llongyfarchiadau iddyn nhw ac i'w teuluoedd.

YN EISIAU

CYLCH MEITHRIN LLANISHEN

ARWEINYDDES
i ddechrau Mehefin 4ydd – os yn bosibl
Am ragor o fanylion cysylltwch â
Mrs Sue Pound (756222)



CROESAIR AP LEWSYN Rhif 100 Mai 1990

AR DRAWS:

7. Mae gardd yn fodd i wneud dyn yn hirymarhous. (9)
8. Dydd sy'n symud draw pan feddyliwn ein bod wedi ei gyrraedd. (5)
10. Un o'r caethion. (8)
11. Cyfnod yr ymwrthod. (6)
12. Fe'u megir yn ddiarhebol ym mhob gwlad. (4)
13. Pawb tros ddeunaw yn gwneud trefn i gyfarfod wrth yr hen weddillion. (8)
15. Rho dy bres yn y banc. (7)
17. Cloddio'n is. (7)
20. Gwiber wedi ei ferwi i de. (8)
22. Tôn dda yw hon, reit i wala!. (4)
25. Cerddoriaeth Seisnig, ond og acen Gymraeg. (6)
26. Ymolchaf i drosodd, rwy'n ymhyfrydu yn hynny. (8)
27. Plismon brain? (5)
28. Yn sigledig, mae yn crefu tros y gymdeithas wrth lofnodi'r rhôl. (9)

I LAWR:

1. Bwriad cant ym mhen pellaf Cwmaman. (5)
2. Rwy'n poeni amdanoch, Elen, 'ond mae'n eglur nad oes modd osgoi'r peth. (6)
3. Harddwyd ag un arwydd D plethedig. (8)
4. Fe ddaru i Fari droi yn ffôl o'i blaid. (7)
5. Dal Arfon wrthi'n gwneud rhywbeth gwastraffus. (8)
6. Cadwodd Ray pob llythyren o'r geiriau i ddarganfod eu llawn ystyr. (9)
9. Teclyn a wneir o goed i lyfnhau tir âr. (4)
14. Un hyddysg yn y maes yn rhoi barn gwir am y pumed nodyn. (9)
16. Nid bob amser y cewch chwi bethau yn ansefydlog. (8)
18. Fe gei di hwn yn ddiymgeledd. (8)
19. Sylfaen yr Abiec Roeg yw Dd. (7)
21. Diatal, ymdrechgar. (4)
23. Amddiffyn â thail?. (6)
24. Y rhai a ddisodlodd fawredd y llys. (5)

DATRYSIAD RHIF 99

AR DRAWS: 8. Cyffeswyr; 9. Ymweld; 10. Oen; 11. Bryncrug; 12. Dilwgr; 13. Mynwent y Crynwyr; 15. Casbwyd; 18. Hendaid; 21. Diwrnod i'r Brenin; 24. Llugoer; 25. Mwyafrif; 26. Acw; 27. Salome; 28. Yr Awyren.

I LAWR: 1. Cyfrwy; 2. Deunaw; 3. Gwerinlywodraeth; 4. Ar Ogwydd; 5. Mynd Wrth Ei Bwysau; 6. Gwylanod; 7. Clogwyni; 14. Nes; 16. Oriau Mân; 17. Barddonol; 19. Awn; 20. Diamwys; 22. Edfryd; 23. Ieitheg.

CYSTADLEUAETH RHIF 100

Tocyn Llyfr Cymraeg am £5 eto. Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair a'i anfon i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Mai 16eg, os gwelwch yn dda.

CANLYNIAD CYSTADLEUAETH RHIF 99

Derbyniwyd wyth ymgais. Gwall mân mewn tri ohonynt, a'r pump arall yn hollol gywir. Yr enw a ddaeth o'r het oedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glanyllyn, Caerdydd. Y pedwar arall yn yr het oedd: Carys Humphreys, Bangor; BH, Cyncoed; Marged Davies, Llandaf; a Huana Simpson, Y Bontfaen.

DYMUNA'R DINESYDD GYDNABOD GYDA DIOLCH GEFNOGAETH Y SWYDDFA GYMREIG A CHYMDEITHAS GELFYDDYDAU DE DDWYRAIN CYMRU TUAG AT GOSTAU CYHOEDDI.

TELYNEG Y MIS

Gwn ei ddyfod, fis y mêl,
Gyda'i firi yn yr helyg,
Gyda'i flodau fel y barrug –
Gwyn fy myd bob tro y dêl.

Eis yn fore tua'r waen
Er mwyn gweld y gwlith ar wasgar,
Ond yr oedd y gwersyll cynnar
Wedi codi o fy mlaen.

Eistedd wnes tan brennau'r Glog,
Ar ddyfodiad y deheuwynt;
Edn glas ddisgynnodd arnynt
Gan barablu enw'r gog.

Ni rois gam ar lawr y wig
Heb fod clychau'r haf o tano,
Fel diferion o ryw lasfro
Wedi disgyn rhwng y brig.

Gwn ei ddyfod, fis y mêl,
Gyda'i firi, gyda'i flodau,
Gyda dydd fy ngeni innau –
Gwyn fy myd bob tro y dêl.

Eifion Wyn

DYDDIAD COPI RHIFYN MEHEFIN 11 – 05 – 90

DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

Golygydd
Shân Emlyn
5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair
Llandaf, Caerdydd CF5 2EE
☎ 0222 567438

Hysbysebion
Gwasanaethau Cyfryngol Thomson
4ydd Llawr, Tŷ-Marland
Sgwar Canolog, Caerdydd
CF1 1EP
☎ 0222 237885

Dylunio, Cysodi ac Argraffu
Huw Davies
Detheridge Cyf
93 Cowbridge Road East
Caerdydd CF1 9AF
☎ 0222 223525
Ffacs 0222 383760

Dyddiad copi rhifyn Mehefin
11 – 05 – 90
14,400 o ddarllenwyr

DEWCH Â'R TEULU I BROFI 1900 O FLYNYDDOEDD O HANES CASTELL CAERDYDD

CASTELL CAERDYDD

CARDIFF CASTLE

AR AGOR 362 O DDIWRNODAU'R FLWYDDYN



GORTHWR NORMANAIDD

HEFYD:

CAER RUFEINIG

GWAITH ADNEWYDDU BURGES

AMGUEDDFEYDD CATRODOL

Am fanylion pellach ..... Neuadd Wledda a'r Cyfleusterau Cynadledda, cysylltwch â:

Y Gweinyddwr
Castell Caerdydd
Caerdydd CF1 2RB
Ffôn: 0222 822083

CITY OF CARDIFF
DINAS CAERDYDD